wych ac yn nerthol, yn erbyn amddiffynnwy
Morgan mywn cymanfa a gynhaliwyd *Bl.*

‡ *Vincent. Spec. Hiſt. Lib.* 21. *Cap.*

, yn *Llan-Ddewi-Breſi.* Ei yſgolhaig eſ
d *Samſon,* yr hwn a ſu'n Arch-eſgob yn
daw; ac *Aidan,* yr hwn a ſu mo'r lew yn
rthſefyll pabyddiaeth pan ddanfonwyd *Awſtin*
y pâb *Gregori* i bregethu i'r *Saeſon*; gyda
wer eraill dſuedog a gwrêng. (*q*), Dywedir
i yn *Henllan* yn ymyl *Wy* yr oedd ei yſgoldŷ,
ood ganddo yno ynghylch mil o yſgolheigion;
d efe a fyddai weithiau mywn lle a elwir *Moch-*
u. Yr ydys yn dywedyd mae y *Dyfrig* hwn
dd yr Eſgob cyntaf yn *Llan-dâf,* (*r*).
Cwnaeth *Iltwt* hefyd ei ran yn wych oddidog
dferu dyſgeidiaeth a moeſau da. Ei yſgolheigion
oedd *Gildas,* yr hwn a gyfenwir y *gwr doeth*;
wi yr Arch-eſgob, gyda channoedd eraill
nwaneg, y rhai ni wyddys eu henwau. A hyn
a ddaeth i'r *Brutaniaid* trwy ddiwydrwydd a
ſg *Garmon* a *Lupus.*
Yr ail waſanaeth ardderchog a wnaeth yr Eſgo-
on i'n Hynafiaid oedd rhoddi iddynt Ffurf weddi
ffredin a ddygaſant o *Ffraingc*: A hynny ni
aethont, fal pe buaſent yn eleimio goruchel
u i beri iddynt wneuthur pa beth bynnag a
dynt yn dda, ond o ran fod y Ffurf weddi
nno yn gywreiniach ac yn ardderchoccach na'r
urf oedd gan y *Brutaniaid* euſys. Ac yn wîr
iau yr oedd cyfanſoddiad y Ffurf honno yn
idog dros ben, ped yſtyrid hi a'i o ran ei threfn
goſodiad, neu o ran y gweddiau eu hun.
ffes pechodau oedd y dechreuad, ac yno y
lect 'pwyntiedig i'r diwrnod. Ac yno y coffâid
wau y rhai a hunaſant yn yr Arglwydd, a dei-

(*q*) *Orig. Britannic. Cap.* 4. *p.* 204. (*r*) *Godwin's Catalogue ſub* Landaff.

ſyfid nerth yr yſpryd glân i'w canlyn hwy, m
y canlynaſant hwythau eu pen-bugail, yr A
wydd Jeſu. Ac yno Colect arall i ddeiſyf
Duuw eu cadw mywn undeb rhag Schiſm ac
reſi; Ac yno y traethid yn helaeth rinwe
godidowgrwydd y Sanct a ſerthyrwyd a'r y
hwnnw (o byddai neb,) A'r Offeiriad a
ghorai ei wrandawyr trwy ymadroddion dwy
i'ddynt ddeiſyf gràs gan Dduw i ymarweddi
bucheddu fal y Sanct hwnnw, ac i fod yn h
i roddi eu heinioes i lawr er mwyn Chriſt, p
gorfyddai arnynt. Wedi hynny y canlynai Co
rhagflaenol i'r *Cyſſegriad* (o byddid yn cymm
y dwthwn hwnnw) ac yno Colect defoſionol
i erfyn lleſhâd oddi wrth y Cymmun, a gwedi
lect arall am yr achos, y canlynai Gweddi'r A
wydd, ac telly y terfynid y gwaſanaeth trwy e
Bendith, (*s*).

Nid oedd un peth oſer-goelus yn y gwedd
hyn, ond pob peth a dreſnwyd yn ôl cynghor
Apoſtol yr hwn a ddywed, *Gwnelet pôb p
er adeiladaeth*. 1. Cor. 14. 26. Y Gyffes
chodau oedd yn uniawn-gymmwys; canys nid o
dim anweddeidd-dra yn yr Ymadroddion; i
Erfynniad oedd yn uniawn-gywir, Canys at D
yn unig y gweddiwyd. Nid oedd yn y Ffurf ho
ddim gweddiau tros y Meirw, nac at Saint, na
Santeſau, nac at Angelion na dynion, ond at D
Holl-alluog yn unig trwy haeddigaethau'r A
wydd Jeſu. Ac yn wir ddiau y mae hen Ath
won yr Eglwys yn tyſtio megis o un genau,
rhai o'r Apoſtolion a gytanſoddodd y Ffurf hon
gyn

(*s*) Stillingfleet's Orig Britann. Ch. 4. pag
217, 218, 219, 220, 221, &c.

af, er y gallai Eſgobion uniawn-grêd a'r ôl yddiau hwy anghwanegu rhai pethau atti, ynaſol i ſtât a chyfiwr yr Eglwys. Ac o'r honno'n bendant y caſglwyd Fturf weddi ys Loegr, nid oddi wrth lyfr gwaſanaeth ys *Rhufain* fal y tybia rhai. (*t*),

Garmon a *Lupus* ddychwelyd adref i *Ffraingc*, orug meibion y Fâll, ſef y gau-athrawon ei phregethu hi'n hoyw-bryſur eilwaith : no'r ddigywilydd oeddynt, fal yr ymegnia- a'r i ddynion goelio nad oedd Athrawiaeth ſgobion ond hudoliaeth a thwyll, ond bod eu yddorion hwy yn wirionedd di-ſiommedig. hudwyd ambell un o'r rhai anyſgedig ganddOnd y jawn-ffyddiog a anfonaſant i *Ffraingc* aith i ddeiſyf a'r *Garmon* ddyfod attynt unetto i berffeithio'r gwaith gogoneddus a reuodd. Ac yno *Garmon* (i wneuthur y o'r dalent a dderbynniodd) a gymmerth yn ddiattreg, ac a hwyliodd parth a Brydain, dug ganddo Eſgob a elwid *Seferus*. (*u*) Yr oedd ŵr gwybodol jawn, a chanddo ddawn rchog i ddadleu tros y gwirionedd. Pan y gau-athrawon fod *Garmon* wedi dyfod ith i *Frydain*, och! Hwy a leddid a brwy- Canys hwy a wybuaſant euſys y perchid on o'i blaen hwy yn y diwedd. Ac felly bu : daliwyd y gŵyr, ac a'i traddodwyd yn i *Garmon*, yr hwn a'i dug hwy ganddo i ngc, ac a'i danfonodd hwy oddi yno i eithabŷd, ac yno yr arhoſaſant fyth gwedi.

Ibid. pag. 237. (*u*) *Bed. Hiſt. Eccles. Lib.* p. 22.

PEN. III.

Drwg fuchedd y Brutaniaid wedi ymadawiad mon. *Yr Erlidigaeth ſeiſnig. Y Brutani ſyrthio drachefn i Hæreſi* Morgan. *Cy yn* Llan-ddewi-breſi *ynghylch hynny. nodedig ynghylch* Non *niam* Dewi a *Y plâ a elwid y* Fall telen. *Dyfodiad A Fynach i Frydain. Llygredigaeth* Eglwy ſtin *pan ddanfonwyd y gwr da hwnnw i thu i'r* Saeſon. *Yr ymddiddanion a fu Awſtin a'n Heſgobion ni y waith gyn bwont yn ſiarad. Y gwyrthiau a ddywedir i A wneuthur. Holir teilyngdod y gwyrthiau Profir fod y Brutaniaid yn uniown-préd, gwrthſefyll Pabyddiaeth yn ddygn-ddiſrifol, dyſtiolaeth* Talieſin. *&c. Yr ail ymddidda hoedd rhwng* Awſtin *a'n Heſgobion ni. hair y pyngciau mwyn dadl rhyngddynt. thyrdod y Mynych duwiol ym* Mangor is y *Ein Hynafiaid ninnau o'r diwedd yn ymro Babyddiaeth.*

DYma *Brydain fawr* yn-awr ſtât hoyw-odidog, yn rhydd wrth elynion ac Hereticiaid. Barnwyr tymhorol a ddenfy ſant y gyfraith wladol yn a'r Gweinidogion yſprydol a gethaſant athrawiaeth Jachuſol yn flyddlon yn yr yſpaid hwnnw, ni chwyfiodd y *Ffi* mwy na chelaneddau meirwon. Yr oedd y

mawr hwnnw a gawſant ym *Maes Garmon* * u cóf hwy etto. Ac yn wîr ddiau, pe can-ſai'r hên *Frutaniaid* y rheol eſangylaidd no, ſef, gwaſanaethu Duw gyda gwylder a chedig ofn, megis ac y dechreuaſant, ni i mo'r *Ffichtiaid*, na neb eſtroniaid eraill, yn gallu eu gorchyfygu. Ond yfywaeth! ddrwg-fucheddol gan mwyaf oeddynt, ac yn euthur yr hyn oedd ddrŵg yng ngolwg yr lwydd. *Am hynny, megis ac yr yſſa y ffagl y ſoſt, ac y difa y fflam y mân-us; felly y u gwreiddyn hwynt yn budredd, a'i blodeuyn ſodes i fynu fal llwch; am iddynt ddiyſtyru aith yr Arglwydd y lluoedd, a dirmygu gair t yr Iſrael,* Eſ. 5, 24. Er iddynt gael prawf eth o ffrwythau grâs a phechod, a'r gwahan-ol affaith o honynt yn y bywyd hwn, etto a ddiyſtyraſant y naill, ac a lynaſant wrth y . Ac o'r achos hwnnw, er eu bod yn llawn n i ymladd tros eu gwlâd, (*a*), Etto trwch flwyddiannus jawn a fuont yn eu holl Frwy-. Canys yr ydys yn dal ſulw, na thyccial yrch un gelyn yn eu herbyn, tra yr oeddynt adw gyd-a Duw, *Ac yn addoli'r Arglwydd n prydferthwch ſanctteiddrwydd.* Ond pob w grwydredigion ladronaeh, megis y *Ffichti-* &c, a'i gorchyfygent, tra fyddent yn weiſion chod, *Ac yn rhodio a'r ôl cyndynnrwydd eu calon*

---

* *Gwel. Rhan. 1. Pen. 3. tu dal.* 58. (*a*) *Gens armis dedita tota, non enim nobiles hic ſolum, totus populus ad arma paratus eſt. Bellicâ ſonante, non ſegnius ab aratro ruricola, quam cus ab aulâ prorumpit ad arma.* Giral. in mbria Deſcript. Cap. 8. pag. 254, 255.

calon ddrygionus. Ond myfi a draethais hyn yn y *Khan gyntaf*, ac nid oes gennyf ham i ail-adrodd yma yr un peth.

Ni bu dim damweiniau (hyd y gwn i) m perthynas i Grefydd a'r a dalant eu hadrodd Ymadawiad *Garmon* nes dyfodiad y *Saeſon* y rhai a fuont megis fflangell lem doſt yn ll Arglwydd i goſpi drygioni y wlâd. Canys e *Gildas* yn dywedyd, mai ynfydrwydd digymm Tywyſog *Gwrtheyrn*, a fu'r achos o'i galw i *Frydain.* (*b*). Ftto mae *Beda* yn dywedyd eglur fod rhagluniaeth Duw yn hynny. (*c*), yw hynny, fal y baent megis offerynnau yn Dduw i goſpi'r trigolion anianol o herwydd hanufudd-dod. A phed anghwanegid y ddau re hyn ynghyd, yr wyf yn meddwl y ceid alla gwirionedd cyn gymhwyſed ac yr *Ergydiai bion Benjamin garreg.* Barn. 20, 16. Ac ddiau, on' buaſai fod llaw'r Arglwydd m barn yn erbyn ein Hynafiaid, prin y galla fod cyn ynfytted y waith hon ac y buont. C yr un fath a fuaſai iddynt oſod y Blaidd yn g wad a'r y Defaid, a galw y *Saeſon* troſodd i yn geidwaid arnynt hwythau rhag ymgyrc *Eſcbtiaid.* (*d*) Ac a'r fyrr amſer y câdd ein h aſiaid brawf greſynol o'i hynfydrwydd; C y *Saeſon*, yn lle bod yn gynnorthwy-wyr yn cyfammod a wnaethpwyd a hwy, a droeſant elyn

(*b*) *Gild. Epiſt.* ſ. 23. *pag.* 20. (*c*) *Hiſt. Eccleſ. Lib.* 1. *Cap.* 14. (*d*) *Ex qua etiam videri poteſt nullam* in toto orbe *magis atam provinciam armis quam* Britannia *fu* Pontic. Virum Britannic. Hiſt. Lib. 6. 48.

ion ciaidd iddynt. Buont megis cynnifer
ll gynddeiriog yn llâdd a lloſgi dros yſpaid.
gafant y Dinaſoedd, y Llannoedd, a'r Llyſ-
Diniſtriafant bob adeilad hoyw, a thai an-
, fel nad oedd dim i w weled ond pentwrr
rrig yn gymmyſc â chyrph dryllieddig y Mer-
on. (*e*), Rhuthrafant a'r y trigolion o'r
rain i'r Gorllewin, nes oedd y maeſydd yn
au gan waed y lladdedigion trueiniaid. Ac
beddau ni chawſant ond boliau adar yſglyſ.
Cenawon ? *Germani* yn lladd ? Chriſt-
n *Brydain* yn dioddef ! A *chig frain*
yn bwytta ! A'r tyrr eiriau, ni adawſant
y na thwlc heb ei loſgi, na dŷn nac aniſail
i ladd y ffordd y cerddaſant. *Oh cleddyf*
rglwydd pa hŷd ni lonyddi ? Dychwel i'th
gorphwys, a bydd ddiſtaw. Jer. 47. 6,
wi a ddarllenaſoch *Rhan.* 1. *Pen.* 3. Pa
y bu hi gyda gweddillion y Brutaniaid wedi
, etto yſpyſaf yma a'r tyrr eiriau iddynt
ſuddugoliaeth trwy borth Duw a'r y *Saeſon*,
hen talm o amſer gwedi, er cymmaint o
t a ſerthyrwyd y pryd hwnnw. Ac yno
taniaid a adgyweiriaſant yr Eglwyſydd a'i
oedd a ſwriaſid i lawr gan y Paganiaid, ac
nt yn Ghriſt 'nogion da dalm o amſer. Ond
au hynny a hauaſai meibion y Fall, a ddech-
nt dyfu eilwaith ym mhlith y gwenith :
hwy a ddiwreiddiwyd mywn amſer da, cyn
ſant ormod i dagu'r holl ŷd. Fy meddwl
ſe ddaeth Athrawiaeth *Morgan* i gymme-

riad

(*e*) *Gild. Epiſt. pag.* 22. *vid. plura ibid. Bed. Eccles. lib.* 1 *Cap.* 15. * Grex catulorum, *pag.* 20.

riad a pharch mawr eilwaith, a hi a bregeth
a'r gyhoedd, ac a ſiccrhawyd mae gwirio
diſiommedig ydoedd, a'r unig ffordd i Jec
wriaeth.

Bu hyn yn achlyſur triſtwch mawr i'r J
ffyddiog, i weled Hæreſi ddiniſtriol (yr hon
gaſid foci gwedi ei llwyr-ddeleu) yn dyrchaf
yn ymdannu eilwaith. Canys yn wîr ddiau
yw Hæreſi yn fatter yſgafn diniweidiol, no
beth i gellwair ag ef, ond ei hanian nid
amgen nag anadl Diafol, a'i hagwedd fyd
arogli eirias tân uffern. Canys Hæreticiaid
megis *Tonnau cynddeiriog y mbr, yn ewynnu*
eu cywilydd eu hunain: Ser gwibiog, i' rh
cadwyd niwl y tywyllwch yn dragywydd. Jud
Felly *Dyfrig* Archeſgob *Caer-lleon a'r Wy*
ddanfonodd at Eſgobion ac Henuriaid Cym
i erchi iddynt ddyfod i gynnal Cymmanſa
y gallent gyd-ymgynghori p'odd y gellid a
byddai boſſibl gynnydd yr *Hæreſi*. Ac yno
myſg eraill y bu *Teilo fawr*, a *Phadarn* yn
ddiffyn y Ffydd Catholic yn lewion yn erbyn
athrawiaeth *Morgan*; A *Dewi* hefyd a bro
holl erthyglau'r ffydd Catholic mo'r gadarn-dd
ac mo'r hyloyw allan o'r Yſcrythurau Sanct
fal y gwybu pawb fod Duw gyd-ag ef.
Canys (os gwir a ddywedant) yr oedd y d
tan ei draed yn cynnyddu ac yn dyrchafu i

* *Annot. in Girald. Itiner. Cambriæ. Li*
Cap. 4. pag. 186. (*f*) David *graviter &*
voſe abſurdam Pelagii *doctrinam, ſolidis ra*
bus, e ſacræ ſcripturæ fontibus petitis ita re
vit, ut magnam ſibi doctrinæ & ſanctitatis
nionem conſequutus ſit. Ibid.

'r nef fal yr oedd efe yn traethu geiriau
w i 'r bobl. (*g*), Y Gymanfa hon a
haliwyd *Bl. yr Argl.* 492, mywn lle a alwyd
di hynny, *Llan-Ddewi brefi*, yng *Ngheredi-*
. Ni wyddys pa Reolau neilltuol a wnaeth-
yd yno, can's y maent hwy wedi colli, ond y
'n ddiau i fod yno lawer *Anathema* yn erbyn
athrawiaeth *Morgan*.

Ond rhac y bernir i mi wneud cam a'r Awdur,
a angwhanegat y ſtori yn gyflawn, fal y mae
ei hun yn ei hadrodd. " Yr oedd *Hereſi*
Morgan (eb'r ef) wedi attyfu 'n ddirfawr, wedi
ymadawiad *Garmon* oddi yma. A hynny a ro-
ddes achlyſur i gynnal Cymanfa yn *Llan-ddewi*
brefi, lle yr ymgyfarfu nid yn unig Eſgobion,
ac Offeiriaid ond llawer o Wyr llŷg anrhyde-
ddus, Arglwyddi a Thywyſogion. Ac yno y
tu 'r Eſgobion uniawn-gred yn dra diwyd yn
pregethu i 'r bobl, i geiſio eu dymchwelyd oddi
wrth eu cyfeiliornad, ond nid allent dyccio
mywn modd yn y bŷd, canys yr oedd y Gau-
athrawon wedi ynnill proſelytiaid lawer, y rhai
oeddynt oll yn glynu yn ddi-yſcog wrth yr
Hereſi. Ac a'r hynny y danfonodd Eſgob a 'i
enw *Pawlin* gennad at *Dewi*, i ddeiſyf arno
ddyfod i 'r Gymanfa, canys yſpys i bawb oedd
mae gŵr nerthol i ymddadleu tros y gwirioneedd
oedd efe; ond er hynny, ni allodd *Dewi*
ddyfod er danfon dwy gennad atto, canys yr
oedd y gŵr ſanctaidd wedi rhoddi ei hun at fy-

" fyrdodau

(*g*) *Girald. Vit. David. ap. Whart. Anglia Sacra. Pars* 2. *pag.* 640.

" fyrdodau duwiol. ‡ Ond a'r diwedd (
" ped amgen hwy a fuasent dybygol i g
" achos y cynnmerodd dau Esgob, enw'r
" oedd *Dyfrig*, ac enw'r llall oedd *Daniel*.
" daith at *Dewi*, ac ynteu a wybu yn yr
" eu bod yn dyfod atto, a bod yr achos yn
" ei bresenoldeb, ac am hynny efe a aeth
" hwy. Ac fal yr oeddynt yn myned a'r eu
" hwy a gyfarfuont gerllaw *Llan-Ddewi-Br*
" Gwraig yn wylo yn chwerw dost, o herw
" ei Mâb a fuasai farw, ac yn myned y
" hwhnw i'r Eglwys i'w gladdu. Ond pan
" lodd hi *Dewi*, hi a redodd yn gyflym atto,
" daer-ymbiliodd arno i wneuthur ei Ersyni
" Dduw i fywhau ei Mâb. A *Dewi* addw
" gan dosturio wrth gyflwr y wraig, a frysi
" at yr Elor, ac a ddyfrhaodd wyneb y Marw
" ddagrau, a chan alw a'r enw Christ, a f
" haodd y Llangc yn eu gwydd hwynt oll, ac
" traddodes yn jach lawen i'w fam. ¶

" Ac yno'r Llangc a ommeddodd fyned a
" gyd-a'i fam, ac nid dim ganddo oni chai ddy
" gyd-a *Dewi* i'r Gymanfa. A bu *Dewi* fodl
" ei adael, ac efe a roddes ei Eibl (heb yr h
" nid aeth efe i le eriioed) i'r llangc ei ddwy
" ac efe a'i gosodes a'r ei ysgwydd: ac a'i dygo
" i'r Gymanfa. Ac yno *Dewi*, er dirfawr l
" enydd i bawb o'r rhai uniawn-gred, a bre
" thodd air Duw i'r Bobl, a'r ddaear yn y cyfa

" s

‡ *Erat enim vir ſanctus contemplationi deditu*
¶ *Faciemque Defuncti lachrymis rigans, invoca*
Chriſti nomine, coram omnibus & puerum mira
loſe ſuſcitavit, & matri redivivum reſtaura
Cirald. Vit. S. David. pag. 659.

oedd yn tyfu tan ei draed ef, ac a'r gribyn
bryn hwnnw yr adeiladwyd yr Eglwys yno
edi hynny, yr hon a gyſſegrwyd er anrhydedd
Ddewi, ac a elwir hyd heddyw *Llan-ddewi-*
refi.

w y gwyrthiau hyn, a llawer eraill yn ychwa-
n wir ni 'sgwn i, ond y mae 'n ddiogel gennyf
Dewi cyn odidocced Diſinydd a'r a fu erioed yn
thu mywn pulpud, a'i ardderchawgrwydd
rag-fynegwyd, ac efe etto yng nghrôth ei
ſal y mae 'n amlwg wrth yr hyn a ddigwy-
d i *Gildas* pan oedd *Non* mam *Dewi* yn gwran-
mo yn pregethu. Canys pan oedd *Gildas* yn
thu mywn Eglwys a elwid *Llan-y-Morfa*, y
yddodd i *Non* raſlawn (yr hon oedd yn feichiog
ewi y pryd hwnnw) ddyfod i mywn a'r hanner
egeth, ac yn ddiattreg ſe aeth *Gildas* yn ſûd,
allai lefaru gair mwyach. Synnu a wnaeth
yn ddirfawr i weled y Pregethwr yn diſtewi
ddiſymmwth, a gofynnwyd iddo am yr
nad ai rhago yn ei ymadrodd. Yn wir
Gildas) mi allaf fiarad a chwi mywn ym-
lan cyffredin, ond nid allaf bregethu mywn
yn y bŷd, ni wn i beth ſydd yn ei bert. A
attolwg, ewch chwi allan dros enmyd i
h pa beth a allaf wneuthur wrthyf fy hunan.
no, wedi myned o'r bobl allan, y ceiſiodd
bregethu drachefn, ond nis gallai mywn
yn y bŷd; pe hynny fuaſai yn achub ei hoedl.
ychodd *Gildas* yn ddygn-ddiſrifol a'r llynny,
waeddodd allan, *Yr wyf yn dy dynghedu di*
trwy

Ego quidem communi loquelâ vos alloqui
m, prædicare vero, neſcio quo eventu, nulla-
poſſum. Girald. pag. 630.

trwy y Duw Byw, od oes yma neb yn ymgu a'r ddyfod i'r Amlwg. Ac yno *Non,* (yr oedd yn eiſtedd mywn rhyw gilfach ddirgel yn myſyrio a'r yr hyn a glywodd) a ddaeth Amlwg, a chan grymmu yn oſtyngedig, a ddy dodd, *Nid oes yma neb ond myfi Arglwydd, yr a eiſteddais accw yn myſyrio a'r yr hyn ag o ti o'th fawr wybodaeth yn ei lefaru.* Ac yn gwybu *Gildas* y byddai'r plentyn a enid o yn ardderchoccach nag ef, felly efe a attoly arni fyned allan: A gwedi ei myned, *Gild* bregethodd yn ddirwyſtr. (*b*).

Ond i ddychwelyd. Yn y flwyddyn n wedi cynnal y gymmanfa hon, y câdd y *Bru aid* y fuddugoliaeth odidoccaf a'r y *Saeſon* a gafwyd oll. (*i*), A dododd hynny y fath galondid ac anobaith yn y gweddillion o ho fal yr aethant yn lliprynnaidd tua thîr eu g heb ddim bwriad i ddychwelyd fyth i *Fr* rhagllaw. Ac yno y bu'r wlâd yn eiddo'r taniaid o eithaf bwygilydd o honi. Enein Brenhinoedd drwy *Gymru* a *Lloegr*, goſod Barnwyr cyfiawnion mywn Llyſoedd i uni farnu Dadlau, ac ordeiniwyd Gweinidogion d ol i fugeilio Eglwys Dduw

A'r fyrr eiriau, trefnwyd pob peth mywn Llan i ſtât gymhedrol dda : A bu ymarwe Chriſt 'nogol tra fu y Tô hwnnw. Ond w genhedlaeth arall gyfodi, a'i llygad yn unig yr hawddfyd preſennol, ac heb wybod dim

tral

(*b*) Girald. Vit. S. David in Whart. A Sacra. pars 2 pag. 630. (*i*) *Prælium Bad mentis, de quo vid.* Gild. pag. 23.

odau mawrion a ddioddefodd eu Teſdau, *(k)* hiodd pob peth allan o dreſn, megis hen adeil-redi adfeilio. Canys y *Brenbinoedd* megis ſter Gormeſdeyrn creulon, a orthrymmaſant Deiliaid, ac a roddaſant eu hunain i bob yſ-dr a direidi: Y *Barnwyr* a werthaſant farn rian, ac nid gwaeth oedd ganddynt p'odd yr achos modd y gallent hwy gael gwobr trwy anghyfiawn: Yr *Offeiriaid* oedd megis yr *Bugail* yn Zech. 11, 17. *Yn gadel y praidd,* ſod yn ben-arweinyddion pob direidi, yſge-a dirdra: A'r *Brodorion* hwythau a ganly-nt fiampl eu hathrawon, gan eu dynwared mywn pôb peth drygionus. *In facinus ju-putes!* Oni ymwelaſ am y peth hyn, medd Arglwydd, oni ddial fy enaid a'r y gyfryw gen-a hon? *Myfi a'th blannaſwn yn ber-win-dn o'r jawn bad oll: Pa fodd gan hynny i'th yd i'm yn blanhigyn afrywiog, gwinwydden ibr?* Jer. 2, 21. *Pa fodd i'th arbedwn am?* Ac yno wedi eu pechodau hwy addfedu i ryw, yr ymwelodd yr Arglwydd a hwy mywn dracheſn, Canys bu farw nifer fawr o ddy-o Blâ dinyſtriol a elwid y *Fall Felen*: (yr s y cyfenwyd y Plâ hwnnw felly, ydoedd o ydd ei fod yn gwneuthur lliw melyn (*l*), a'r n y ſawl a fuont feirw o honaw.) Ac yn y hau hynny dan lywodraeth *Malgwn Gwynedd,* holl Gymru, *Gwynedd,* a *Deheubarth* y bu y hwanw yn waeth etto nag yn *Lloegr,* ac *Al-*

k) Cum ſucceſſiſſet ætas tempeſtatis illius neſ- & preſentis tantum ſerenitatis experta, &c. *Epiſt. pag.* 23. *(l), Uſſ. Primord. Cap.* 75. *Cap.* 14. *pag.* 559.

bain. Dŷn diràs melldigedig oedd y M
hwnnw, a chanddo fàb yn waeth nag ynte
am hynny y melldithiodd *Taliesin* ef gan d
dyd,

Na bo rhad na gwedd a'r Falgwn Gw
Drwy na ddialer a'r Run *ei etifedd;*
Boed fyrr fo ei fuchedd, boed diffaith fo ei d
Boed hir ddifroedd a'r Falgwn Gwyned

'Taliesin ben-beirdd a'i cant.

Bu hyn yn achlysur tra mawr i'r *Saeson* gyn y wlâd hon, Canys fe aeth y rhan fwya *Brutaniaid* i *Lydaw* ynghylch yr amser hw modd y caffent breswylfod mywn awyr fw mherus a jachusach na'r hon oedd ym *Mbr* Ac yn gymmaint a bod cadernid y wlâd myned trosodd, nid oedd yma neb i wrth rhuthrau'r *Saeson* mwyach. Felly y mae'n wg, mae nid trwy nerth arfau, na thrwy gyf dra chwaith (er cymmaint oedd eu hyttryw d y darfu i'r *Saeson* oresgyn *Lloegr*, eithr yn trwy ddamwain, sef o herwydd fod y wlâ wâg o Drigolion. Ac nid oedd anhawsdra bŷd i berchennogi gwlâd, lle nid oedd ne gwrthsefyll. Felly y *Brutaniaid* a gollasant ron *Loegr*, yr hon a fuont yn berchennogi yng 1827 o flynyddoedd, (*m*).

Ac yno, wedi'r *Saeson* gael preswylfod d yn *Lloegr* y danfonodd y *Pab* a elwid G ynghylch *Bl.* yr *Argl.* 598, un o'i *Fyn* elwid *Awstin* ‡ i bregethu Jechydwriaeth idd

(*m*) *Vid. Powel's Chronicles. pag.* 3. ‡ *hwn oedd* Awstin *Esgob* Hippo; *un o bl Eglwys oedd hwnnw; ond Cercryn diddysc oedd*

s Paganiaid oeddynt hwy etto yn addoli Del-. Ond cyn yr âf rhagof i ddangos p'odd y rhwng *Awſtin* a'n Hefgobion ni, yr wyf neddwl na tyddai anghyfleus, ped yſpyſid ym en-llaw, 1, Gyneddfau yr *Awſtin* hwnnw. lygredigaethau *Eglwys Rhufain* y pryd w.

Climmach hir o ddŷn oedd efe, a thecceach bryd a'i oſgedd oddi allan, nag yng nghyn- ei Enaid oddi fywn. (*n*), Canys gŵr balch, s, gwaedlyd, cenſigennus oedd efe, fal y ei weithredoedd yn rhy amlwg ym *Mbry-* A phe cyſtadlem ddyfodiad, ymddygiad, ac wiaeth *Awſtin*, a dyfodiad &c, y Duwiolion a ddaethant o'r blaen i'r ynys hon, ni a eu bod yn cyttuno, megis Tywyllwch a ni: Canys. 1, *Awſtin* a ddaeth yn ane- ſgar ac o'i anfodd. (*o*). Eithr y lleill a ant (Duw a'i gwyr) yn ewyllyſgar ddigon, gwir fodd. 2, *Awſtin* a barodd ddwyn o'i *Groes Arian*, a llûn Chriſt yn baintiedig fyllen, neu fwrdd; ac o'r achos hwnnw y dd un o frenhinoedd Lloegr mae Gorcheini- u Hudol oedd efe. (*p*), Nid oedd gan y ddim o'r fath bethau ofer-goelus. 3, *Awſt-* dd wr coeg-falch trahaus. (*q*), Y lleill nt wir Ddiſgyblion Chriſt, Canys goſtyn- ac addfwyn oeddynt. 4, *Awſtin* a ddyrch- *Rûb Rhufain* yn fwy na neb. (*r*), Y lleill

Vid. Bp. Goodwin's *Catalogue. Cap.* 4. 8. [a] Dyfan a Phagan; Garmon a Lupus, (*o*) *Vid. Bed. Hiſt. Eccles. Lib.* 1. *Cap.*) *Id. Cap.* 25. (*q*) Humph Lloyd's *Breviary of* n. *pag.* 79. (*r*) *Hos liquebit ex ſequela.*

a ddyrchafafant *Ghrift* yn fwy na neb. 5, *in* oedd ddyn gwaedlyd creulon, Canys gyffroes un o Frenhinoedd Lloegr i ladd y waneg na 1200 o wyr crefyddol ym *fs y coed.* (s), Y lleill oeddynt dangnedd a'i holl waith oedd yng ngwinllan yr Arglw Nid oeddynt yn ymryſſongar, chwaethach nog i ddinyſtrio a thywallt gwaed gwirio *Awſtin* a fynnai brofi pob athrawiaeth trwy thiau. *Gwel. Marc.* 13, 22. Y lleill a fant eu hathrawiaeth yn bendant o'r Sgryth unig reol ddiſiommedig 7, *Awſtin* a ddu eddo fwrn o lygredigaethau ſtaidd, ſef cym ag oedd Eglwys *Rhufain* yn ddal y pryd hw Y lleill a bregethafant y gwirionedd dilwgr ma *Saith* nod gwahanol rhwng *Awſtin* g dog y Pâb, a'r Duwiolion hynny a ſuo ſiaen ef yn pregethu ym Mhrydain. A'r nod hyn ſy'n dangos yn eglur ei fod efe aelod o *Eglwys Rhufain.* Gwel. *Dat.* 17

2, Er fod Eglwys Brydain yn cadw efangylaidd, ac yn cafau pob gau-athrawiaeth hwnnw, yn ol cynghor yr Apoſtol, *Chwy-ch bynny, Amwylyd, a chwi yn gwybod y peth o'r blaen, ymgedwch rhag eich arwain ym trwy amryfuſedd yr annuwiol, a chwympo o oddiwrth eich ſicrwydd eich hun.* 2. Pet. Ond yn wir ddiau yr oedd Eglwys Rhufain *gadel y ffordd uniawn, a myned a'r gil*

(s) *Vid. Bed. Lib.* 2. *Cap.* 2. *N. B.* Beda (*ejuſdem farinæ*) Auguſtinum *hunc Mona miris effert laudibus; ſed conſulat lector loc & videbit me non tranſverſum digitum a v diſceſſiſſe.*

syr oeddid yn addoli y Sainct, ac yn gweddio
n difrif arnynt. (*t*) Yr oeddid yn dal fod
drydydd lle heb nêt ac uffern, ſef *Purdan.*
A'r lle hwnnw a appwyntiwyd, meddent
i goſpi y rhai lled-ddrygionus, hyd oni ddug
Cymeſyfiaid lonaid côd o arian i'r *Pâb*, ac
hwy a ddyrchafid yn ddiattreg i'r net uchaf.
edd Eſgob *Rhufain* yn cleimio awdurdod
wch holl Eſgobion y byd; etto y mae rhai
ywedyd ei fod eſe heb gwbl-ymddyrchafu,
ei fod megis gŵr ag un droed yn y çhwar-
(*w*), Yr oeddid yn lleſtair i Offeiriaid
li. (*x*) Yr oeddid yn cymmyſgu halen ſwy-
a'r Dwfr i ſedyddio. (*y*), Goſodwyd
au yn anad dim yn yr Eglwyſydd, ond nid
id yn eu haddoli hwy yn yr amſer hwnnw.
Yr oeddid yn credu fod rhinweidd mywn
in-bren a wneid a'r ddull Croes, i wneuthur
thiau. A hyn oll y mae'r Chronicl cym-
yn ſynegi yn y geiriau hyn, *Y Chriſt'nog-
a ddug* Awſtin *i'r* Saeſon *a litbraſai beth
rth burdeb yr Eſengyl, a therſynau'r ben
ys, ac ydoedd gymmyſgedig a llawer o arddi-
dd, goſodogaethau dynion, a* Seremoniau
on, *anghyttun a nattur teyrnas Chriſt; nid
m, Croeſau a delwau, Crio a'r y Sainct
; pendeſigaeth Eſgob Rhufain, dwfr a halen*

(*t*) *Magd. Cent.* 3. *Col.* 83. (*u*) *Mr.* Bell's *Survey of Popery pag.* 297. (*w*) *Crakanth. Def. Angl. contra. Spal. Cap.* 12. *p.* 126. *vid. Gregor. M. Epiſt. Lib.* 6. *Ep.* 3. *L.* 4. *Ep.* 36. Bell's *Survey p.* 200. (*y*) M. SS. *vetuſtiſſ. Adorare imagines omnibus modis devita.* Greg. 9 Epiſt. 9.

ſwynedig, a chyfryw oferedd anhebyg i yſpry-deb Eſengyl Chriſt, a gynnyſcaſai Awſtin *Chriſt 'nogaeth a oſodai efe ym mhlith y Saeſon*

Bellach mi a âf rhagof yn yr Hiſtori. Y *Awſtin* ddyfod a rhyw nifer o'r *Saeſon* i gr y teilyngodd y *Pab* ei Feiſtir ei wobrwyo ag Arch-eſgobaeth holl Brydain am ei (hon oedd y waith gyntaf i'r Pab ormeſu a'r wyſlydd *Brydain*) Ac yno *Awſtin*, wed ddyrchafu i'r uchel-ſwydd gyſſegredig hon, a fonodd am Eſgobion y Brutaniaid i ei a'r antur a allai efe eu perſwadio hwy i gydn Pab *Rhufain* megis Pen-bugail yr Eglwys gydnabod ynteu megis Arch-eſgob holl *Bry* (yr unig gynneddf dda oedd arno, oedd b ſyddlon i'w feiſtir, a dadleu tros ei achos *Dynawt* Abot *Bangor is y coed*, gyd-a o ŵyr llên, arddercheg eraill a ddaethant i goſodedig i ſiarad ag ef. Ac yno y dywe *Awſtin* wrthynt, y byddai raid iddynt gydn *Pab Rhufain* yn ben-bugail yr Eglwys gat ac ufuddhau iddo ef yn yr yſtyr hwnnw. A ynteu wedi ei gyſſegru ganddo yn Arch-E holl *Brydain*, ac am hynny y dylent ufu iddo mywn pethau yſprydol. Hyn a llaw 'chwaneg y ddywedodd *Awſtin* i geiſio eu g droi hwy oddi wrth y gwirioned. Ond wyd efgan yr Arddercheccat *Dynawt* yn y g hyn, nid amgen. *(b)*, " Bydded yſpys a

(a) M. SS. *vetuſtiſſ. quem* & D. Ric *Epiſcopus Men. citat in Britannica praf Novum Teſtamentum.* *(b)* *Spelm. Concilia A. C.* 601. *pag.* 108 *ex antiquo* MS. *Samm tannia pag.* 511.

rwi, ein bod ni oll, un ac arall yn ufudd ac yn
ngedig i Eglwys Dduw, ac i'r Pâb *Rhu-*
, ac i bob cywir Griſtion duwiol, i garu
b yn ei râdd mywn cariad perffaith, ac i
io pawb o honynt a'r air a gweithred i
yn blant i Dduw. Ac amgenach ufudd-dod
wn, nid adwen i fod i'r neb yr ydych chwi
henwi yn Bâb, neu yn Dâd o Dâd i'w
nio ac i'w ofyn. A'r ufudd-dod hwn
m ni yn barod i'w roddi ac i w dalu iddo
ac i bob Chriſtion yn dragywyddol. He-
yr ydym ni tan lywodraeth *Eſgob Caer-*
n ar Wyſc, yr hwn ſydd yn olygwr dan
uw arnom ni y wneuthud i ni gadw'r ffordd
ydol. Pan glybu *Awſtin* yr ymadrodd
te a wybu na chydnabyddid ei Feiſtr yn
gail yr Eglwys gatholic, nac ynteu chwaith
ch-Eſgob gan y Brutaniaid. Ac am hynny,
frommodd yn ddigllon-aruthr, ac a ddy-
d. *Yn gymmaint a'ch bod yn naccau cyd-*
Pâb Rhufain *yn ben-bugail yr Eglwys*
c, ac yn glynu wrth eich traddodiadau neilltuol
unain yn erbyn yr Eglwys Gatholic,
wch wirioneddeich Grefydd trwy
ur rhyw wyrthiau. Ac yn ddiattreg ef a
yd attynt Sais dall i edrych a allent hwy
au ef; a phan ni's gallaſent, *Awſtin* a we-
[at ryw Sainct yſgatfydd] ac yn ebrwydd
a welodd, (c).

ae'r *Papiſtiaid* a'r *Paganiaid* yn dadleu'n
(yn eu tŷb hwy) i brofi gwirioneddeu
wiaeth trwy wyrthiau. Dywed y *Papiſtiaid*,
dd S. *Tomos* yn yr *Hiſpaen*, i'r Groes le-
rtho, *Da y Scrifennaiſt am danaſi, o Domos.*

(c) *Bed. Hiſt. Eccleſ. Lib.* 2. *Cap.* 2.

(*d*) Dywed y *Paganiaid* hefyd i Deml y Dd
Dynghedfen letaru wrth y gwragedd a wei
yno, *Da, da y gwnaethoch.* (*e*) Dywed y P
iaid tod St. *Ffronfis* yn pregethu i adar a
cod, ac i'w bregeth oſod y ſath gyfnew
mywn Blaidd rheibus ſal y daeth at S. *Ffron*
a dyngodd yn hoyw-bryſur wrtho, na wn
niweid i ddyn nac anifail fyth a'r ol h
(*f*), Dywed y *Paganiaid* hefyd chwedlau
un yſtyr. (*g*), Dywed y *Papiſtiaid* i ryw
dorri ymmaith ei fraich ddeheu, a'i
wrth boſt yng ngwydd yr holl liaws; On
wnaeth ei erfyniad o flaen delw'r Arglw
Fair, y neidiodd y fraich a grogaſid wrth y
yn ddiattreg at ei gorph, a hi a aſſiwyd
cyfryw fodd, fal nad oedd dim gwahaniaeth
y fraich honno a'r fraich arall. (*h*), Dy
Paganiaid hefyd fod rhyw wraig yn cael ei
flino o achos rhyw lyngyren tawr yn ei
phan aeth hi at y Dewin i'w Jachau, yſyw
oedd ef wedi myned oddi cartref. Ffrth
nidogion a ddodaſant y wraig yn y lle yr
eu Meiſtr yn arſor jachau y cleiſion, ac a
ſant ei phen, fal y gallent dynnu allan y ll
ren o'i bol. Ond cyn iddynt hwy aſſio
wrth y corph, dyma'r Meiſtir yn dychwel
ref, yr hwn a geryddodd ei weiſion am
yn anturio gormod, ond efe a drugarhaodd

(*d*) *Brev. Rom. in Feſt. S. Thom.* 7.
(*e*) *Valer. Maxim Lib.* 1. *Cap.* 8. (*f*)
Vit. & geſt. S. Franciſc. N. 7. & 16. (*g*)
Eulog. in Apolog. Tom. 7. *pag.* 433.
de Mahumete. (*h*) *Baron. ad Ann.* 7
5, 6, 7.

wraig, ac a'i jachaodd hi yn ddiattreg. (*i*), ywed y *Papiſtiaid* fod y deillion yn cael eu lygon wrth grair y Sainct. (*k*) Dywed y *Pa-iaid* hefyd yr un peth am eu Sainct hwythau. Hawdd y gallwn oſod yma liaws yn anghwan-o'r gwyrthiau, y mae'r *Papiſtiaid* a'r *Paga-aid* yn ymffroſtio o'i plegid, ond chwi ellwch rw amcan pa gymmaint o wirionedd ſydd yn-ynt wrth yr ychydig hyn a grybwyllwyd. Etto wyf yn amheu onid all Gau-athrawon ac He-ticiaid wneuthur rhyw fath o wyrthiau, Canys Hiachawdwr a ddywed, *Gau Griſtiau a gau-ophwydi a gyfodant, ac a ddangoſant arwyddion rhyfeddodau i hudo ymmaith, pe byddai boſſibl, yr Etholedigion* Marc. 13, 22. Ac yn gym-aint a bod Athrawiaeth *Awſtin* (i ddyfod bellach to ef) yn wrthwyneb i'r Yſgrythur lân, ſef, pen-efigaeth Eſgob Rhufain, crio a'r y Sainct meirw ſc, nyni a lynwn wrth gynghor ein Harglwydd r hwn a ddywed, *Eithr ymogelwch chwi rhag y gau-ddywedais i chwi bob peth.* Marc. 13. 23. Da dywed gŵr o'r Heglwys yn y cyffelyb achos, *lyn a ddywedaf* (eb'r ef) *i ddangos i'n gwrth-ynebwyr* [y Papiſtiaid] *fef, na fyddont ddigofus ed bolid eu gwyrthiau wrth reol yr Yſgrythur, Canys cadarnhant un athrawiaeth arall, nyni a'i wrthodwn megis gwyrthiau celwyddog, neu weith-ediad Satan.* (*m*).

Mae'n ddiogel gennyf fod yr hên Frutaniaid n y dyddiau hynny yn edrych a'r *Awſtin* megis Eilun-

(*i*) *Vid. Ælian. de Animal. Lib.* 9. *Cap.* 33. (*k*) *Boz. de ſign. Eccles. Lib.* 8. *Cap.* 1. (*l*) *Vid. Tacit. Annal. Lib.* 4. (*m*) White's *Way to the Church.* §. 42. *p.* 300

Eilun-addolwr, neu o'r hyn lleiaf megis gau
raw neu Heretic; Canys y mae'r Chroniclau
tyſtio nad oedd deilwng ganddynt i gyfa
gwell i un o'r *Saeſon*, wedi *Awſtin* oſod y
Griſt'nogaeth amhur yn eu plith; er eu bod,
fuont yn Baganiaid, yn cyd-brynu a gwerthu,
cyd-fwytta, ac yn cyd-helyntio a hwy. (n)
nid heb awdurdod yr Yſgrythur lân y gwna
Brutaniaid hynny, Canys S. *Paul* a ddywed;
bydd neb a benwir yn frawd, yn odinebwr,
yn gybydd, neu yn eilun-addolwr, neu yn ddif
wr, neu yn feddw, neu yn grib-ddeiliwr, gyd-
eyfryw ddyn na chydfwytta. 1. Cor. 5,
Ac yn wir-ddiau ni wnai'r hên Frutaniaid unio
gred ddim mywn pethau yſprydol heb awdurd
yr Yſgrythur lân, Canys un o'i Diharebion oed
A gair Duw yn uchaf. Ac yn gymmaint a
Awſtin yn ceiſio eu gwyrdroi hwy oddi wr
y gwirionedd, hwy a gymmeraſant gynghor
Apoſtol, *Gochel y dyn a fyddo Heretic.* Tit. 3,
Ac yn gymmaint a bod ei wyrthiau ef yn cadar
hau egwyddorion nad yw'r Scrythur yn wara
tu, hwy a gymmeraſant gynghor ein Har
wydd, *Ymogelwch chwi: Wele rhag-ddywedai*
chwi bob peth.

Y mae *Taliesin* (y bardd arddercho cof hwnn
yn cyhoeddi *Gwae* i'r Offeiriad yr hwn
chadwai ei braidd yn ofalus rhag *Awſtin*, ac era
o'r Offeiriaid pabaidd, y rhai a eilw ef *Bleiddia*
Rhufain. Mi anghwanegaf yma ryw ran o'r Be
nill honno, yr hon a haeddai ei chadw myw
coffa

(n) M. SS. *vetuſtiſs. quem & D. Rican*
Epiſ. Menev. citat. in Britannica præfat. a
T. N.

dwriaeth, yn gyſtal o ran ei heneidd-dra, ac y matter duwiol ſydd yn gynnwyſedig ti.

Odl a wnaeth *Taliesin* i oſod allan y Dialedd ddigwydd i bechaduriaid am amryw bechodau, a gweithredoedd drwg.

Gwae a gymmarth fedydd,
A chred a chrefydd, [*oni's tyſtia.*
Gwae hwy bennaethau
A dir dafodau [*ac a'i difetha.*
Gwae Offeiriad mûd,
Ni angreifftia gwud, [*ac ni phregetha:*
Gwae ni cheidw ei gail
Âc eſo yn fugail, [*ac ni's areilia.*
Gwae ni cheidw ei ddeſaid
Rhag Bleiddiau Rhufeiniaid [*a'i ffon gnwppa.*
Gwae ddigaſog ſaint,
Na chadwo ei fraint, [*ac ni's addola.*
Gwae eulun angau
A wnêl bechodau, [*oni's cyffeſa.*
Gwae a yſo fwyd
Trwy ſegur fywyd, [*ac ni lafuria.*
Gwae a gaſglo olud
Tra fo yn y byd, [*o drais a thraha:*
Gwae erbyn dydd brawd,
Ni choſpo ei gnawd, [*ac ni's gweddìa.*
Gwae a fo'n bengwlâd,
Ac a fo ceidwad, [*ac a wnêl traha.*
Gwae ni chrêd i'r drindawd
Gwae ni rydd gardawd, [*oni's trugarha.*

Gwae

Gwae ddygo dref-tâd
Y weddw a'r ymddifad, [*oni's cyflawnhâ.*
Gwae a orchfygo'r gwan,
Ac a ddygo ei ran, [*oni's cyflawna.*

Gwae a ddygo fâr
Yn ei galon wrth ei gâr, [*ac a'i casbâ.*
Gwae berchen cyfoeth
Ac a welo lednoeth, [*oni thosturia.*
Gwae ni ymwel a'r cleifion,
A'r carcharorion, [*oni's gwobrwya.*
Gwae ni roddo letty,
A bwyd a gwely, [*i Berenina.*

Taliesin ben-beirdd a'i dywawt.

Yr oedd hi'n ofid mawr i yspryd *Awstin* fa lod y *Brutaniaid* yn ei wrthwynebu ei fal hyn ph odd i ddiak ei lid arnynt ni fedrai wybod. C buswiw ganddo siarad a hwy unwaith etto my Cymmuta gyhoeddi cyn yr ymddialai arnynt n nerth arfau, (dyna'r rhesymmau pwyscaf s gan blant y Fâll hyd heddyw.) A'n Hefgobion a gyttunasant a'r hynny, a Saith o honynt, amgen, Esgob *Henfordd*, Esg. *Taf*, Esg. *Pada* Esg. *Bangor*, Esg. *Elwy*, Esg. *Wic*, ac Esg *Morgannwg*, a aethant i siarad ag ef. Ac hi oedd y Duwiolion uniown-gred hyn yn myned eu taith, y cyfarfuasant ag Hynafgwr glân c fyddol, neu *Ancr*, yr hwn a ofynnodd iddynt ba le yr oeddynt yn myned? Ni awn (*eb'r b* i gyfarfod *Awstin Fynach*, yr hwn a ddanfonw gan y fawl a eilw ete *Pâb Rhufain*, i bregeth yr *Saeson*. Y mae ete yn ceisio gennym nin ufuddhau iddo, a'i dderbyn yn *Arch-Esgob* arno ac i dderbyn hefyd yr un-rhyw Seremoniau

Eerthyg

hyglau, a'r a ddygaſai eſe oddiwrth y *Pâb Rhu*-
hwnnw. Beth ydyw eich barn chwi attolwg
hylch hynny, ‡ a ufuddhawn ni iddo, a'i ni
wn? *Yr Hynafgwr a attebodd,* o's ydyw
di ei anſon o Dduw ufuddhewch iddo. Ond
dd y cawn ni wybod (*eb 'r hwy*) a'i o Dduw y
? Attebai 'r Hynafgwr, Ymtyriwch fal y
wed ein Hiachawdwr, *Cymmerwch fy jau ar-*
, a dyſcwch gennyf, canys addfwyn ydwyf a
yngedig o galon. Mat. 11. 29. Ac o's ydyw
Awſtin hwnnw yn wr goſtyngedig addfwyn,
randewch arno, ac onid ê, peidiwch. Ond
dd y cawn ni wybod, (*eb 'r hwy*) drachefn, pa
a goſtyngedig a balch ydyw? Fal hyn (*eb 'r*
afgwr) Arhoſwch chwi, hyd oni thybioch
Awſtin wedi myned i'r lle goſodedig, ac yno
ſſiwch i fyned. Ac os ni chyfyd *Awſtin* o'i
dair i'ch groeſawi mywn, gŵr balch ydyw, ac
wrandewch arno. (*o*) A'r Eſgobion a wnae-
nt yn ôl cynghor yr Henafgwr. A phan ddae-
nt i'r Gymanfa, ni yſgogodd *Awſtin* falch o'i
dair, fwy na phe buaſai wedi lyffetheirio wrthi.
Gwelwn yma bortreiad eglur o yſpryd trahaus
ch chwyddedig yn diyſtyru pobl Dduw. *Fel*
'r marwor, a ebbed i'r tân, felly y mae gwr
benmus i ennyn cynnen. Dih. 26. 21. Nid
oeth ynteu oedd barn ein Heſgobion ni, *O bu*
ith ganddo gyfarch gwell i ni yr awr-hon, pa
faint

‡ *Conſulentes, an ad prædicationem* Auguſtini
as deferre traditiones deberent? Bed. Hiſt. Eccleſ.
b. 2. Cap. 2. (*o*) *Sin autem vos Spreverit, nec*
am vobis aſſurgere voluerit cum ſitis numero
ores, & ipſe Spernatur a vobis. Galf. Lib. 11.
p. 12.

fuint nwy ydiyſtyra eſe nyni ped a fuddhaem i
(p). Ond i fyned rhago. Ymadrodd *Awſtin* w
ynt y pŷd hwnnw oedd i'r yſtyr hwn: Er
hod, Frodyr anwyl, yn dal llawer o bethau
wrthwyneb i'n harfer ni, neu yn hyttrach
Eglwys gatholic [hynny ydyw, Eglwys Rhu
wrthgiliedig,] etto os chwychwi a ymoſtyngw
i dri pheth, ſef yw hynny, 1. *Cadw r Paſc yn*
Amſer y dylid. 2. *Cyflawni gweinidogaeth*
ydd, trwy yr byn ein hadgenhedlir i Ddaw, y
treſn Eglwys Rhufain gyſſegr-lân. 3. *Preg*
gyd a ni i'r Saeſon, (q) Ni fyddwn ymhar
ynghylch y pyngciau dadleugar eraill. Ond
Heſgobion ni a attebaſant a'r fyrr eiriau, na wn
hwy un o'r pethau hynny. A ie (eb r *Awſtin*
Nid hwyrach a'r antur oni bydd edifar gennyc
Canys os ydych yn gommedd heddychu a'ch br
yr, chwi a fyddwch dybygol i gael rhyfel o
wrth eich gelynion, ac os nid ydyw wiw genn
bregethu gair y bywyd i'r *Saeſon*, chwi a ddio
eſwch angau trwy eu dwylaw hwy.

Yr wyf yn meddwl na fyddai anghymmwys
eglurhaid ym mhlaen llaw y tri phwngc dadleu
hynny, cyn myned at y teſtun galaethus hwn
ynghylch Merthyrdod y Duwiolion ym *Man*
is y Coed, y rhai a barodd *Awſtin* eu llofrudd
1. Fe gythryblwyd y Chriſt'nogion yn wir dd
er ys llawer cant o flynyddoedd cyn yr am
hwn

(p) *Bed. Hiſt. Eccleſ.* Lib. 2. Cap. 2. (q)
Paſcha ſuo tempore celebretis 2. *Ut Miniſteri*
Baptizandi, quo Deo renaſcimur, juxta mo
Romanæ ſanctæ Eccleſiæ compleatis. 3. *Ut gen*
Anglorum una nobiſcum prædicatis verbum
mini. Bed. ibid.

mnw ynghylch yr amſer y dylid cadw 'r Paſc.
d i adael hynny heibio yr awr-hon, y gwaha-
eth rhwng Eglwys *Rhufain* ag Eglwys *Brydain*
ghylch yr amſer y dylid cadw y Wyl arbennig
mo, oedd hyn; Y *Brutaniaid* a gadwent y Paſc
y Sul cyntaf wedi 'r 13 dydd o oed y Lleuad,
ôl i'r Haul ddyfod i Lin-gyhydedd y Gwanwyn,
'r gradd cyntaf o Arwydd yr *Hwrdd*. Ond
refn hon a gyfrifwyd yn wyrgam gan y *Rhu-*
iaid, oblegid ei bod yn anghyttun a'r Hên Egl-
Iddewig. Canys yn fynych pan ddigwyddai
3 o oed y Lleuad a'r ddydd Sadwrn, y *Bruta-*
d a ddechreuent gadw eu Paſc yn y cyfnôs y
d hwnnw, a thirannoeth, ſef a'r y 14 yn yr
yr, y byddai 'r Wyl wedi gorphen erbyn yr
er y dechreuai 'r Iddewon ei chadw. O her-
dd pa ham, y *Brutaniaid* a gadwent y Paſc yn
adol rhwng y 14 dydd a'r 20 o oed y Lleuad
Yr hyn a ddigwyddai ſod wythnos gyfan o
y *Rhufeiniaid*, pa rai a gadwent y *Paſc* wrth
n yr Eglwys *Iddewig*, ſef y Sul neſſaf a'r ol y
4 dydd o Oed y Lleuad, wedi 'r Haul ddyfod
aith i'r gradd cyntaf o arwydd yr Hwrdd.
Ond Eglwys *Rhufain* a newidiodd y dreſn
no *Bl. yr Argl.* 1582, ym mha amſer y gwyr-
wdd y *Pâb Gregori* 13 yr hên reol cyn belled,
cedwir y Paſc weithiau gyd-a'r *Papiſtiaid* bum
nos o flaen y Chriſt'nogion uniawn-gred.
Yr ail bwngc dadleugar ydoedd ynghylch
dd. Ac yma y mae Dynion yn gwneuthur
ahaniaeth (nid yn ôl gwirionedd Hiſtori) ond
ôl gogwyddiad eu barn neilltuol eu hunain.

Mi

(r) *Bed. Lib.* 2. *Cap.* 2. (s) *Bed. Lib.* 3. *Cap.*
Lib. 4. *Cap.* 5. *pag.* 338. *Edit. Anglican.*

Mi a glywais rai yn dywedyd mae *Tadau-be*
ac *Arwydd y Grôg* oedd yr hyn a fynnei *Awſti*
Heſgobion ni ddêrbyn yma. Canys (*eb* r.
yr oedd Eglwys *Rhufain* wedi dychymmyg
remoniau niweidiol hynny ychydig cyn dyfo
Awſtin i Frydain. Ond nid yw hynny wirio
canys. 1. Nid oes un Chronicl neu Hiſtori yn
bwyll am y fath beth. 2. Yr oedd *Tadau-be*
ac *Arwydd y Grôg* (os *Seremoniau niweidiol* y
yn arferedig mywn Bedydd er amſer yr Ap
lion ym mhob oes, fal y dangoſaf yn Eglur,
5. Sy 'n canlyn. Felly nid hynny oedd y gw
niaeth yma, canys yr oedd Eglwys *Rhufai*
Eglwys *Brydain* yn eu harter. Y mae rhyw
o ddynionach eraill y rhai nid oes arnynt gyw
i ddywedyd, mae *Bedydd plant* oedd y gw
niaeth yma: Canys (od oes coel a'r eu breud
dion hwy) yr oedd y *Brutaniaid* yn anghy
byddus a'r *Llygredigaeth ffiaidd* honno, Be
plant, cyn i'r *Awſtin* hwnnw ddyfod i *Fry*
Ond y ddau reſwm uchod ſydd ddigon i wrth
'r dŷb wyrgam ynfyd hon hefyd, canys. 1,
oes un Chronicl neu Hiſtori yn crybwyll
fath beth. 2. Yr oedd Bedydd plant (os *llyg*
gaeth ffiaidd ydyw) yn arferedig yn yr Eg
gatholic er amſer yr Apoſtolion, fal y dang
euſys *Pen.* 2, Ac y dangoſaf etto 'n helaet
caniattâ Duw) *Pen.* 5, Sy 'n canlyn. Felly
Bedydd plant oedd y gwahaniaeth yma.
ynteu oedd y gwahaniaeth? Yr wyf yn atteb,
Eglwys *Rhufain* wedi gwyr-drol y brif arfer
wrth ſefyddlo trwy beri 'r Offeiriaid gymm
Halen a'r dwfr, i'w wneuthur ef (medden
yn fwy affeithiawl: Ac heb gymmyſgiad
Halen ſwynedic hwnnw, yr oeddynt yn da

ſyml yn anigonol, a bod pob rhyw ſedydd
rdd honno yn amherffaith. Felly y mae 'n
a mae yn hyny y mynnai *Awſtin* i'n Heſgo-
ni gyd-ffurfio ag Eglwys *Rhufain.* A Dy-
myg oedd hon a gadarnhawyd yn *Rhufain,*
nad oedd boſſibl i'n Heſgobion ni wybod dim
rthi; Canys ni bu un Gennadwri, na dim
ach rhwng ein gwlâd ni a *Rhufain* er ys
neg na Chant a hanner o flynyddoedd a aeth-
ibio cyn dyfodiad *Awſtin* i *Frydain.* (*t*) Ac
yddai 'r Brutaniaid ddim oddi wrth yr Frthy-
newyddion, *Addoliad* y *Sainct, Purdan, Ha-*
Swynedic, &c. a ddychymygwyd yn y cyfam-
nnw. Ac y mae 'r Chronicl yn dywedyd yn
yw, mae 'r *Halen Swynedic hwnnw* oedd y
mywn dadl yma. (*u*)

Y trydydd peth oedd *Awſtin* yn ſefyll arno,
a'r i'n Heſgobion ni ei gynorthwyo ef i bre-
i'r *Saeſon.* Ond hwy a naccaûſant wneu-
hynny, o herwydd y ddau achos hyn, os nid
n camſynnied; 1. Mae 'n amlwg i bawb pa
Fradwyr a fu 'r *Saeſon* i'r *Brutaniaid*; Pa
ddynion creulon cynddeiriawg oeddynt. Ac
nny nid oedd yn ddi-berygl i'n Heſgobion ni
thu iddynt, rhac y buaſent yn eu lladd. 2.
moſtyngaſent i bregethu i'r *Saeſon,* ê fuaſai
iddynt dderbyn holl lygredigaethau *Awſtin,*
mgen ni fuaſai efe yn caniattau iddynt: Ac
d oedd yma onid dau bwngc yn unig mywn
nas i grefydd, etto mae 'n ddiau fod llawer
yn 'chwaneg mywn dadl rhyngddynt, fal y
'n amlwg wrth ragymadrodd *Awſtin,* Er

(*t*) *Bp. Lloyd's Hiſtorical account.* Ch. 2. § 7.
64. (*u*) *MS. Vetuſtiſſim.*

eich bod Frodyr anwyl yn dal LLAWER o *b*
yn wrthwyneb i'n harfer ni, &c. ‡ Yr
Awstin yn gyfrwys, canys efe a wybu na
gwiw geisio ganddynt ddygymmod a'r cw
unwaith; Ond pe buasent hwy yn cyttuno
yn y tri pheth hyn, efe a ofodasai ym mhen
dri pheth arall attynt. A hyn a wybu ein
bion ni yn ddigon da, ac am hynny hwy a w
ant yn gall i'w wrthwynebu ef a'r y
Chwychwi gan-hynny, anwylyd, a chwi yn g
y pethau hyn o'r blaen, ymgedwch rhag vich
ymaith trwy amryfusedd yr Annuwiol, a ch
o honoch oddiwrth eich ficcrwydd eich hun. 2 Pet.

Bellach mi a âf rhagof yn yr Hiſtori.
Awstin weled a gwybod yn ficcr, na fyddai
i ddyfod a'r *Brutaniaid* i gyttuno ag ei trwy
Rhesymmau, efe a fwriadodd yn neſaf i a
hynny trwy nerth *Arfau*. Felly efe a a
ddiattreg at un o Frenhinoedd *Lloegr* a
Ethelbert brenin *Cent*, ac a'i hannogodd e
bob rheſwm dwys a'r a allai malais ofod yn
lon, i gynnull holl gadernid ei Frenhiniaeth i
ddifetha y Brutaniaid. A hyn oll a oddaw
Brenin ei wneuthur, ond rhac y buaſai ei L
yn analluog, efe a ddanfonodd at Frenin *Nor*
berland a elwid *Elffred* am borth, ac a dyc
Felly y ddau Frenin a ddaethant a'i holl g
yn erbyn y *Brutaniaid* tua *Chuer-Llean* a'r
lle 'r oedd *Brochwel Yſgithrog* yn tywyſ
y *Brutaniaid*. Ond pan welodd *Brochwel* y
cadarn a hwnnw, efe a ffoawdd, ac a ddanfo
wyr yn eu cryſteiſiau i ddeiſyf ammodau he

‡ *Bed. Hiſt. Eccleſ.* Lib. 2. Cap. 2.

Awſtin a barodd eu lladd (*w*) Creulonder a ſai chwithr gan Baganiaid moeſol ei wneuthur? roedd yn *Sir y Fflint* y pryd hwnnw Fonach-neu Yſgoldy godidog a elwid *Bangor is y coed*, y dycpwyd i fynu y Duwiolion pennaf a'r olheigion mwyaf a'r a fuont erioed yn prege-mywn Pulpud. (Ynteu nid yw ryfedd fod *ſtin* yn llidiog wrthynt) Y mae rhai yn dy-yd fod yno ſaith o ſtafelloedd, a bod ynghylch hant o *Fynych* ym mhob un o honynt. Nid d y *Mynych* hyn (ſal y *Mynych* pabaidd ynawr goel-grefyddol) eithr gŵyr duwiol oeddynt yn ſanaethu Duw mywn Yſpryd a gwirionedd, n byw, lawer o honynt, a'r laſur eu dwylaw. wedir fod rhai o honynt yn goſod gerddi, ac yn nu coed, a rhai heſyd yn gweu rhwydau (*x*) yr oedd cynddeiriogrwydd *Awſtin* wedi en-yn eu herbyn, ac nid dim ganddo oni chai efe gwaed hwy: A hynny a gâdd efe allan o law, s y ddau Frenin (wrth ei arch et) a roddaſant ymmyn i'r milwyr i ruthro arnynt, (*y*) a thyrwyd o honynt ddauddeg cant, ac ni ddian-d ond deg a deugain yn unig. Ond buan y haeddodd llaw 'r Arglwydd y Llofruddiaid, s fal yr oeddynt yn dychwelyd adref mywn ſoledd, y cyfartu a hwynt *Blederic* Tywyſog iw, *Morgan* Tywyſog *Deheubarth*, a *Chad-* Tywyſog *Gwynedd*, y rhai roddaſant Gâd hes yn erbyn y *Saeſon*, ac a'i gorchfygaſant,

O 2 oblegid

(*w*) *Goodwin's Catalogue.* Ch. 4. pag. 45. (*x*) *Galf. Hiſt. Britan.* Lib. 8. Cap. 4. *Walaſr. ab. vit. Galli.* Cap. 6. (*y*) *Vid. Goodwin. loc. t.*

oblegid hwy a laddaſant ddeng mîl a thriugai honynt, ac a yrraſant y lleill a'r ffô (z) A buaſid yn lladd *Awſtin* yno, prin y gallaſwn gyfrif et yn *Ferthyr*.

Ynghylch yr amſer hwnnw y dywedir fy ugain mîl o Frutaniaid i ynys *Enlli*, modd gallent ochel creulonder y *Saeſon*, megis ac y niattaodd ein Harglwydd, *A phan i'ch erlidi yn y ddinas hon, ffowch i un arall.* Mat. 10. Yr wyt yn meddwl mae 'r deg Mynych a deug hynny a ddiangaſant o gratangau *Awſtin*, a'i p ſwadiodd hwy fyned yno, canys yr ym yn darl mae yno y bu farw *Daniel* Eſgob *Bangor is y co* (a) Y rhai hyn oll a fuont feirw yn ynys *Enlli*, a gyfrifir yn Sainct, mal y tyſtia y ddihareb hon *Yr ugain mil Sainct*. Ac *Awſtin Fynach*, Apo y *Saeſon*, oedd yr unig ŵr a barodd hyn o P'odd ynteu y gallaf ddiſtewi rhac dywedyd,

Fyth naccair y fath un câs,
Mawr ei ddera mo 'r ddiras,
I Lygru ffydd cynnydd cain.
Gwîr frodyr gwâr o Frydain.
O bawn bereben bwn parchus,
Loyw rith bardd fal Aur a Thus,
Byth ni roddwn beth neu ran
I'w bardynu o Burdan.

Pa hyd yr arhoſodd y *Brutaniaid* wedi hy yn y lawn ffydd heb ymroddi i Babyddiaeth, gallaf i ddywedyd yn berffaith-gwbl. Hyn a

(z) *Samme's Britannia Antiq.* vol. 1. pag.
(a) *Girald. Itiner. Cambriæ.* Lib. 2. Cap. 6.
190. Lin. 20.

bod hwy ynghylch cant o flynyddoedd wedi
ny, yn gwrthſefyll Pabyddiaeth cymmaint ac
Proteſtant heddyw, fal yr ymddengysoddi wrth
. Yr oedd *Mynach* a elwid *Eugubinus* wedi
oeddi allan i'r *Fair forwyn* ymddangos iddo
n breuddwyd, ac erchi iddo oſod ei Delw hi
yr Eglwyſydd a'i addoli. Y Breuddwyd hwnnw
adarnhawyd gan Bâb *Rhufain* mywn cymanfa
ynhaliwyd yno *Bl. yr Argl.* 781. ond hynny,
eilun-addoliaeth, a gadarnhawyd gan y *Saeſon*
Mhrydain er ys'chwaneg na thrilugain mlly-
id cyn hynny. (*b*) A phan geiſiwyd hyrddu yr
n-addoliaeth yma a'r y *Brutaniaid*, hwy a'i
nhwynebaſant yn lewion, megis y gweddai i
ſif'nogion cywir wneuthur. A hyn a roddes
lyſur i un *Adelmus* Eſgob *Sal'sbury* yſgrifenu
r yn eu herbyn; ym mha draethawd y mae ete
eu ceryddu o herwydd fod eu Hoffeiriaid yn
odi, ac yn gommedd i eillio eu coryn, ac am eu
l yn dal yn erbyn defodau Eglwys *Rhufain*.
)

Hyd yn hyn ni a welwn fod y *Brutaniaid* yn dal
wir ffydd yn ddiyſcog, ond y diſgleirdeb hwnnw
dduodd fwy-fwy beunydd wedi hynny, nes ei
ed yn dywyll oll. A hyn nid allat ei gyſtadlu
lim cyffelyppach nag i'r Haul dan ddiffyg. Canys
ar unwaith y mae diſgleirdeb a phelydr
Haul yn colli, ond o feſur ychydig ac ychydig:
lly nid a'r unwaith yn ddianoed, yr ymroddodd
Hynafiaid ninnau i Babyddiaeth: Hwy a
mmeraſant eu perſwadio i dderbyn pwngc yn-
r ac eilwaith, nes iddynt o'r diwedd ddygym-

(*b*) *Comp. Cent.* pag. 129. (*c*) *Joſſel. in Hiſt. Gild.* pag. 96.

mod a holl ſothach Pabyddiaeth: A hynny a dd
wyddodd (i'm tŷb i) ynghylch y nawfed Gan
Ond y mae 'n ddi-ddadl i'r *Brutaniaid* ymrodd
Babyddiaeth tua 'r ddegfed ganred o oedran Chr
Canys yr ŷm yn darllen i *Howel dda* (yr hw
ddechreuodd ei deyrnaſiad *Bl. yr Argl.* 9
gymmeryd gyd-ag eſ Arch-eſgob *Ty-Ddewi*,
gob *Bangor*, Eſgob S. *Aſaph*, a thri a'r dde
ŵyr dyſgedig eraill i fyned i *Rufain*, er cael
y Pâb gadarnhau y Gyfraith a wnaethai eſe
Gynghoriaid i reoli *Cymru* wrthi. *(d)* Ac y ma
ſicr gennyf nad aethai eſe ddim i *Rufain*
yr achos hwnnw, pe ni fuaſai wedi derbyn C
fydd *Rhufain*.

Wedi hyn yr ymroddodd ein Hynafiaid i
byddiaeth yn llwyr-gwbl, ac a oddefaſant i g
meryd yr Yſgrythurau Sanctaidd oddi wrthy
rhai o'r blaen oedd yn goleuo eu meddyliau
ffordd y gwirionedd. Ac yno y dyſgpwyd a
y Gwaſanaeth Lladin, a'r Delwau; a gwna
pwyd Sainct a Santeſau newyddion yn lle *J*
Ghriſt i fod yn Gyfryngwyr at Dduw. A p
un o'r rhai hynny a weddiwyd attynt mywn
rafael achos, canys yr oedd pob un wedi eigym
glwydd a fô gyda chwi: A'r Bobl a atte-

Vid. Cave's *Prim. Chriſtianity Part.* 1, 1. *pag.* 347. *Ex quo hæc omnino excerpſit* nſt. *Apoſt. lib.* 8. *C.* 10 *pag.* 1011.

bai, *A chyd-a'th Yſpryd ditheu.* (*a*) Yr Offeiriad a ddywedai drachefn, *Dyrchefwch eich calonau.* Y Bobl a attebai, *Yr ydym yn eu dyrchafael i'r Arglwydd.* (*b*) Yr Offeiriad a ai rhagddi gan ddywedyd y drydedd waith, *Diolchwn i'r Harglwydd Dduw.* Ac attebid efe gan y Gynulleidfa, *Mae yn addas, ac yn gyfiawn gwneuthur hynny.* (*c*), Ac yno, wedi'r Offeiriad gyflawni y Bara a'r Gwin, y rhoddid ef i'r Cymmunwyr, y rhai fyddent i fyll yn lefyll, a'i ynteu eu dau-lin. (*d*), Ond ni chlybuwyd erioed fod neb o'r hên Grift'nogion yn eiſtedd wrth ddderbyn, oblegid i fod ganddynt fwy o barch yr Arglwydd Jeſu, nag y deuent i goffau ei wolaeth yn y fath fodd anweddaidd. Ond *Rhufain* yn wir fydd yn eiſtedd wrth dderbyn y Cymmun, oblegid fod chwith ganddo benlin etto y mae hyn (ym myſc nodau eraill) yn gos yn eglur mae *Anghriſt* ydyw,

Rhac i neb wrthddadleu fod ein Hiachawdwr yn eiſtedd pan yr ordeiniodd efe ei Swper Sanctaidd; Yr wyf yn atteb mae dygn-gamſyniad ydyw tybied hynny: Canys ein Hiachawdwr a ddilynodd arfer yr *Juddewon* yn bwytta'r Pas pa rai a orweddent o'r wlaſ; byddai tri a'r gwely, a thri gwely, gan mwyaf, a fyddai o gylch pob bwrdd. (*e*), Ond gan na rodde Harglwydd un Gorchymmyn ynghylch hyn Chriſt'nogion yn ddiattreg a farnafant, mae'r goſtyngei

(*a*) *Chryſ. in Cap.* 9. *ad Cor. Hom.* 36. *Cirill. pag.* 537. (*c*) *Cypr. de Orat. Domin.* 195. (*d*) *Vid. Nich. Def. Eccles. Angl. pa Cap.* 10. (*e*) Goodwin's *Jewiſh Antiq. L pag.* 115.

goſtyngeiddiaf a fyddai 'r modd cymmeradwyaf; Ac y mae Hiſtori yn tyſtio 'n eglur eu bod yn derbyn y Cymmun yn waſtadol yn yr un modd ac y byddent yn gweddio, ac yn gymmaint a bod arfer ganddynt i weddio bob Dydd Sul gan mwyaf o'i ſefyll, felly hwy a gymmunaſant hefyd o'i ſefyll gan mwyaf y Suliau; (*f*) Ond pa dryd bynnag y byddent yn gweddio a 'r eu dauſin, hwy a dderbynnient y Cymmun yn waſtadol yn yr un modd. Gwelwn ynteu wall-ſynwyr ac ynfydrwydd ddigymmar y dynionach hynny y rhai a welſant (mywn breuddwyd yn ddiammau, Canys nid oes mo 'r fath beth mywn un Hiſtori) yn chlybuwyd ſôn, erioed am y fath beth a phenlinio wrth dderbyn y Cymmun cyn y flwyddyn 1126. (*g*).

PEN. VI.

Addoliad Duw a'r gyhoedd yn yr Eglwyſydd; Dyfalwch y prif Griſt'nogion i ddyfod i'r addoliad cyhoedd. Gweddi yn dechreu y ddau lith, un o'r hen Deſtament, a'r llall o'r Newydd. Canu Pſalmau. Pregethau. Tyſtiolaethau amlwg nad oeddid yn gweddio dim a'r y Seinctau. Sefyll wrth ddarllen yr Efengyl. Yr arfer

(*f*) *Dionys. Alexand. apud Euſeb Hſt. Eccleſ. Lib.* 7. *Cap.* 9. (*g*) *H. D.'s Diſcourſe of Liturgies. pag.* 79.

arfer hwnnw gan y Criſt'nogion ym mhob oes Edrych tua'r Dwyrain wrth weddio. Affeithiad y ffredin gan y Prif Criſt'nogion er amſer yr Apoſtolion. Y modd yr oeddid yn addoli Duw mewn teuluoedd gartref.

GAn fod ffordd yr hen Criſt'nogion gynt yn ôl dyddiau'r Apoſtolion yn dra chyflcus ei gwybod, mal y gwypper pa gyfryw drefn oedd ganddynt yn y gwaith ar beunyddiau hwnnw yn addoli Duw, pan oedd Creſtydd yn ei phurdeb, a llynny yn ddiamraſael yn yr Eglwys gatholic, Mi a ymegnïaf i oſod yma wir ac unlawn lortrelad (hyd y mae gwaith y Teidau yn dangos) o'i trefn eſangylaidd yn addoli Duw yn yr amſer goreuraid hwnnw.

Ac yn gyntaf nid yw anghymmwys i ddywedyd ychydig am *Ddyfalwch* y Prif Criſt'nogion yn cyrchu i'r Addoliad cyhoedd: ‘A'r y diwrnod ‘hwnnw (*medd Juſtin y Merthyr*) a elwir Dydd‘Sul, y mae pawb o honom yn y Wlâd, yn ‘gyſtadl ac yn y Dref yn ymgyfarfod i'r un lle. (*b*) Nid maithder y ſordd, anhymoreiddrwydd yr hin, neu ryw goeg eſgus arall a'i hattaliai hwy gynt rhac dyfod i wrando pregethiad y gair; Canys mi chyfrifwyd mo'no yn ddigon i ddarllen, gweddio, a chanu mawl gartref, ond gwnaethpwyd Cydwybod hefyd i ymddangos a'r gyhoedd. Ac yn ddi-ddadl yr oedd y Prif Criſt'nogion yn ddyfal tros ben i gyrchu'n waſtadol i'r Addoliad cyhoedd; a phan attelid hwy gan Glefyd, neu pan

(*b*) *Juſt. Mart. Apol.* 2 *pag.* 98. *Edit. Par.* 1636.

an ddigwyddai i ryw ddamwain aniſgwyliadwy
u lleſtair, ê tyddai cymmaint o driſtwch yn eu
alonnau o herwydd y methiant hwnnw, a phe
uaſid yn eu deol allan o'r wlâd. Os chyw ŵr
aiar a eſceuluſai, efe a ddwys-geryddid, oni fy-
dai ganddo well Rheſwm i roddi, na bod y
rdd yn hîr-faith, a'r tywydd yn afrywiog.
Gorchymmynwyd mywn Cymanfa a gynhaliwyd
l. yr *Argl.* 305 yn yr *Hiſpaen*, I *attal troſeunyd*
di wrth y Cymmun, y cyfryw rai a fyddent ab-
ennol o'r Eglwys dri Saboath, (*i*).

Mi a wn fod rhai gwyr oneſt yn ein plith, y
hai nid oes arnynt gywilydd i ddywedyd, nad oes
'r un Chriſtion rwymau yn y bŷd wrth gyfraith
Duw i gadw dydd yr Arglwydd, o herwydd nad
es un adnod yn yr holl Deſtament newydd yn
orchymmyn ei gadw. Yn wir nid yw hi ond
fer-dreulio'r Amſer i wrthbroſi ynfydrwydd y
ath ddynionach a'r rhai hynny trwy reſymmau
awer, oplegid fod y peth cyn amlyced yn eu her-
yn, Ond hyn a ddywedaf, fod Eglwys Dduw
m mhob Oes yn cadw Dydd yr Arglwydd yn
refyddol. *Bydded i bob un* (medd hen Athraw a
Scrifennodd ynghylch *Bl. yr Argl.* 100) a'r
fydd yn caru Chriſt, gadw Dydd yr Arglwydd
yn Wyl, yr hwn ſydd megis Ymherawdr y
dyddiau eraill. A'r y dydd hwn yr adgyfododd
ein Harglwydd, y perffeithiwyd ein Hiechyd-
wriaeth, ac y daroſtyngwyd Angau gan ein
Harglwydd ein Gwaredwr. (*k*), Hyn oedd
arn y Brâſ Eglwys, a hynny ydyw Barn Eglwys
Duw etto, dyweded dynionach anyſgedig a fynn-
ont

(*i*) *Concil. Illiber. Can.* 21. (*k*) *Ignat. Epiſt. ad Magneſ. pag.* 149. *Edit. Amſter.* 1646.

ont yn y gwrthwyneb, (er eu bod wedi lla
peth yn-awr oddi wrth yr hyn a fuont).

A'r Ddydd yr Arglwydd gan hynny yr arfe
yr hên Grift 'nogion gyd-ymgynnull i addoli Du
Ac wedi eu dyfod ynghyd, yr hwn oedd *Flae*
a'r y Brodyr * (dyna'r enw y mae *Juftin y M*
tbyr yn roddi i'r Offeiriad) a ddechreuai
Gwaſanaeth a gweddi, yr hon a'i yn ddifyfyr
traethid gan y Gweinidog, a'i ynteu mywn ffu
oſodedig o eiriau, ſydd bwngc dadleugar y
mhlith rhai yn ddiweddar; Ac mi a wn y diſgw
lir arnaf i fynegi yma ynghylch hynny, fal y mae
rhwym arnaf, gan fy mod wedi cymmeryd y fa
waith yn llaw.

Y mae rhai dynion a ſicrhânt (trwy eiriau gwy
ac ymffroſt) fod pa beth bynnag yn wir diamm
ſydd yn ôl eu tŷb hwy; y rhai a wyrdroant
gwir briodol yſtyr yr Awdwyr a grybwyll
ganddynt, ac a'i gwnant i fiarad yr hyn ni ddae
yn eu meddyliau erioed: Ond na atto Duw i n
fyned i amddiffyn un Egwyddor trwy y ffor
felldigedig hon; y mae i'r Uniown-gred Reſyn
mau eglur o'r 'Scrythur Sanctaidd, ac oddi wr
hên Deidau'r Eglwys Gatholic i brofi pob Egw
ddor ffydd, a phethau eraill ſydd er adeiladaeth, he
fyned i wyrdroi na'r 'Scrythur, na Gwaith y Te
dau. Ac felly y mae gennym dyſtiolaethau no
Eglur ac all un taſod fynegi, fod ffurf oſodedig
eiriau yn orchymmynedig yn y 'Scrythur Sanc
aidd, ar yn arferedig o hyd mywn Gweddi a'
gyhoedd er amſer yr Apoſtolion ym mhob oe
Pa eiriau a all adrodd Gorchymmyn am ffur
Weddi yn eglurach nag eiddo ein Hiachawdw

Luc

* *Proeſtos tôn Adelphôn.* Apol. 2. pag. 97.

uc. xi. a ? *Pan weddioch, dywedwch, Fin Tad yr yn wyt yn y nefoedd*, &c.

Ac felly yr ŷm yn darllen fod y Weddi ardderchoccaf hon yn arferedig gan y Chriſt nogion iown-gred (er fod rhai Hereticiaid yn gommedd harfer) ym mhob oes, fal yr ymddengys (ym yſg eraill) wrth eiriau S. *Syprian*, yr hwn a ywed fal hyn. " Chriſt a roddes i ni ffurf weddi, efe a'n rhybuddiodd, ac a'n haddyſgodd pa beth i weddio o'i blegid. Yr hwn a roddes fywyd i ni a'n dyſgodd i weddio, modd y gwrandewir ein gweddiau yn ebrwyddach gan y Tâd nefol, pan y gweddiom yn y geiriau a ddyſgodd ei Fâb ini. Canys pa weddi a all fod yn fwy Yſprydol na'r hon a roddwyd i ni gan Griſt, yr hwn a roddod yr Yſpryd glân hefyd ? A pha Weddi a all fod yn alluoccach i dyccio gyd-a Duw, na gweddi ei Fâb, y Gwirionedd, yr hon a ddyſgodd efe i ni a'i wefuſau ſanctaidd ei hun ? Bydded i ni gan hynny, Frodyr Anwyl, weddio fal ein haddyſgwyd gan Dduw ein Gwneuthurwr. Y mae hi'n Weddi dda gyfeillgar i weddio Duw a'i eiddo ei hun : Duw a gydnebydd eiriau ei Fâb. Ac yn gymmaint a bod gennym Gyfryngwr gyd-a'r Tâd i eiriol troſom, arferwn eiriau ein Cyfryngwr : Ac yn gymmaint a'i fod efe yn ſicrhau *Mae pa beth bynnag a ofynnom gan y Tâd yn ei enw ef, y rhydd efe i ni* ; Pa fwy affeithiawl ynteu y bydd i ni dyccio i gael yr hyn a fyddom yn erfyn, os nyni a weddiwn yn ei eiriau ef ? (*l*).

Digon

(*l*) *Quanto efficacius impetramus quod petimus in Chriſti nomine, ſi petamus ipſius oratione* Cyp. de Orat. Dom. § 1, 2. pag. 309.

Digon yw hyn i brofi fod yr hen Grift nogio
yn arfer Gweddi 'r Arglwydd. A chyn amlycce
ydyw mae Ffurf ofodedig oedd eu gweddiau e
alli ei bod yn myned tan amryw enwau yn
ngwaith y Teidau; Canys gan *Ignatius* Difgy
S. *Petr* yr Apoſtol, y gelwir y Ffurf ac oedd
yn arfer yn yr Eglwys, *Yr un-rhyw Weddi* waſtado
(m) gan Juſtin y Merthyr, *Y Weddi gyffredi*
(n); Gan S. *Syprian*, y *Gweddiau cyhoedd*. (o
Ac nid all fod dim yn ficcrach onid Ffurf ofode
dig y maent hwy yn feddwl, oblegid yr ym y
darllen i orchymmyn yn y Gymanfa honno a gyn
haliwyd *Bl. yr Argl.* 365, yn *Laodiſea*, I *arfe*
yr un-rhyw weddiau yn y boreuol, a'r prydnhawn
wdſanaeth. (p).

Wedi darfod gweddio y darllenid rhyw gyfra
o'r hen Deſtament ac o'r Newydd; (q) ond p
gymmaint a ddarllenid ganddynt bob pryd, fyd
gwbl anficer, oblegid y byddai 'r Paganiaid y
fynych yn rhuthro am eu pennau, yr hyn a barai
Offeiriad ambell-waith ddiſtewi yn gynt na phryd
onid cynted ac y gwelodd Duw yn dda i ddyfod a'
rhai mywn Awdurdod i dderbyn y Grefydd Grif
nogol, yr appwyntiwyd pa gymmaint a fyddai raid
ddarllen bob pryd, ſef dau Lithallan o'r Teſtamen
hen a'r newydd. (r), Ac nid y 'Scrythur lân y
unig, ond Homiliau a gyfanſoddid gan Wy
Duwiol a ddarllenid yn fynych a'r gyhoedd he
fyd, megis yr Epiſtol a yſcrifennodd *Clement* at y
Corinthiaid, ac amryw Epiſtolau a llyfrau eraill,

fydda

(m) *Ignat. Ep. ad Magnes. pag.* 33. (n) *Apo*
(o) *De Orat. Dominic.* (p) *Concil. Laodic*
Can. 17. (q) *Juſt. Mart. Apol.* 2. *pag.* 98. (r
Conſt. Apoſtol. Lib. 2. *Cap.* 57. *pag.* 875.

yddai yn traethu pethau duwiol mywn godidowg-
wydd ymadrodd, (*s*).

A'r ol hyn y cenid mawl i Dduw, yr hyn
ferid yn wastadol gan y Prif Grift'nogion yn eu
yledfwyddau teuluaidd a chyhoedd, er Amfer
r Apoftolion; A'r Pfalmau a genid ganddynt
dd naill a *Salmau Dafydd*, neu ynteu ryw
ran o'r 'Scrythur wedi gyfanfoddi a'r fefur
rdd gan Wyr Duwiol, a chelfydd-gar mywn
rdd Dafod, A'r rhydd-did hynny a ganiatta-
yd yn arferol gynt, nes i'r Gymanfa honno a
nhaliwyd *Bl. yr Argl.* 365 yn *Laodifea*, ei lieft-
; Canys gorchymmynwyd yno, *Na fyddai*
dd i ganu gwaith neb rhyw wyr prifat a'r gy-
edd yn yr Eglwyfi. (*t*).

Yr hyn a ganlynai neffaf oedd y *Bregeth*; Ac y
ae y rhan fwyaf o'r Dyfgedig yn tybied nad oedd
pregethau ddim ond Efponiad a'r y rhan olaf o'r
rythur a ddarllenafid, ynghyd ag Annogaethau
wys i wneuthur yn ôl yr hyn a orchymmynid, ac
ymgadw oddi wrth yr hyn a warafynnid. pa be-
od bynnag a fyddai, yn y Scrythur a ddarllenwyd
af. Ac o hyn y mae, y gelwir y Pregethwyr
g ngwaith Scrifennyddion yr Eglwys *Traethwyr*,
legid eu bod yn *traethu* a'r y lleoedd hynny o'r
rythur a ddarllenafid ychydig o'r blaen i'r
bl. (*u*),

Wedi gorphen y Bregeth, y Diacon a archai
wb fyned i Weddio: Ac yno pob un a weddiai
duw o'r neilltu ac wrtho ei hun. A'r weddi
hon

(*s*) *Vid. Euseb. Hist. Eccles. Lib.* 4. *Cap.* 23. &
b. 3. *cap.* 3. (*t*) *Concil. Laodic. Can.* 59. (*u*)
Coves Primitive Christianity, Part. 1. Ch. 9.
g. 278.

hon a Elwid *Gweddi ddirgel y Gynulleidfa*, Can pob un a weddiai wrtho ei hun yn diſtaw, ac ddi-ſoniarus. Ac o'r diwedd, wedi bawb o'r Gy ſulleidfa orphen, Yr Offeiriad a weddiai a'r g hoedd, ac yn ſoniarus, ac a fyddai megis yn *cryn* eu holl Frfyniadau hwy mywn un Weddi. A h ydyw dechreuol yſtyr y gair hwnnw *Coleƈt*, neu Gymraeg, *Crynhoad*, ſef yw hynny, ſal y dywed pan fyddai yr Offeiriad yn *crynboi* holl Sylwedd hyn a weddiwyd gan y Gynulleidfa mywn Weddi. (w)

Nid yw ef ond gwaith afreidiol I broſi nad oe yr hen Griſtnogion yn gweddio dim at Sein ac Angelion; ond gan y bydd y peth a'r antur fodlongar i rai, clywch farn Eglwys *Smyrna* ghylch hynny, yn y geiriau hyn. *Yr ym yn add Chriſt megis Mâb Duw, ac y mae gennym bar yoffadwriaeth y Merthyron, megis Diſgyblion Dilynwyr ein Harglwydd, a megis rhai a ddango ſant eu Cariad anrhaethadwy atto. Ac nym rwyllyſiwn fod yn ddilynwyr iddynt hwy yn bym ſal y byddom yn gyd-gyfrannogion o fywyd.* (x)

Ac hen *Irenæus* dduwiol a ddywed hefyd, *mae 'n chwith gan Eglwys Dduw weddio at An lion, a gwneuthur deunydd o Swynion, na d ywraiwrwydd drwg arall, ond mywn modd pu dilwgr, amlwg, hi a wnâ ei Herfyniad at Gre dwr pob peth, gan alw a'r Enw 'r Arglwydd Je Ghriſt.* (y) Gellir galw yr Ymadroddion hyn

Ffrew

(w) *Macrob.* Lib. 3. & *Walaf. ſtrab. de R Eccleſ.* Cap. 22. *apud Stilling: Orig. Britan.* C pag. 224. (x) *Smyrn. Eccles. Epiſt. apud. E ſeb. Hiſt. Eccleſ.* L. 4. Cap. 15. (y) *Iren.* Lib. Cap. 57.

rewyll y Papiſtiaid, oblegid eu bod mo'r Eglur eu herbyn, fel nad yw boſſibl i roddi dim atteb ynt. *Un Duw ſydd, ac un Cyfryngwr befyd ng Duw a dynion, y dyn Chriſt Jeſu.* 1 Tim. ii.

Arfer cyffredin gan yr hen Griſt'nogion wrth eddio, oedd edrych tua 'r *Dwyrain*. A hyn id mo'r arferedig trwy 'r holl Eglwys Gatho- yn y Dwyrain, a'r Gorllewin, fal nad all neb d yr hwn ſydd yn llwyr ddieithr i waith y idau) fod yn anwybodol o hynny. Ac y mae *Baſil* yn tyſtio mae Traddodiad oedd hwn a d yr Eglwys oddi wrth yr Apoſtolion, (z) yr n yn ddiddadl ſydd. Wirionedd didwyll, ped yrid, 1. Yr Amſer yr yſgrifenodd St. *Baſil*. Ei gynneddfau ef.

1. Efe a ſgrifennodd ynghylch *Bl. yr Arg.* 370. n oedd pob Ffgwyddor ffydd yn uniawn-gywir, b Athrawiaeth yn jachuſol, pob Hereſi yn cael gwrthſefyll yn wrol (Amſer dedwyddach na 'r ddiau hyn) pob Seremoni yn ôl traddodiad yr poſtolion, a'r fyrr eiriau pan oedd pob peth er eiladaeth. 2. Yſtyriwn odidowgrwydd S. ſil, yr hwn o ran ei Ddyſg, a allai gyſtadlu a'r rdderchoccat a fu erioed; O ran ei Dduwioldeb, oedd yn Wyrthiau 'r Oes; O ran ei Egwyddor, llwyr uniown-gred; ac yn gwrthſefyll pob reſi yn ddygn-ddifrifol, ac o ran ei Wybodaeth Hiſtori 'r Eglwys, yn ail i S. *Awſtin* ei hun gob *Hippo*, un o'r Goleuadau diſgleiriaf a le- rchodd mywn un rhan o'r Byd a'r ôl Dyddiau Apoſtolion. Fe wyddai S. *Baſil* gan hynny pa eth oedd yn ddywedyd, pan yw yn yſgrifennu,

(z) *De Spir. Sanct.* Cap. 27. pag. 352.

mae Traddodiad a gadd yr Apostolion, yw edryc
tua 'r *Dwyrain* wrth Weddio. Ac nid ete yn un
sydd yn dywedyd hynny, ond y mae *Justin*
Merthyr (yr hwn a Scrifennodd o bobtu *Bl.*
Argl. 150) yn ficcrhau 'r peth hefyd, (a) fal n
oes gan neb achlysur yn y byd i betruso ynghyl
y fath Arfer Efangylaidd, oblegid mae 'r Apos
lion eu hun (megis y tystia 'r hen Deidau hy
a'i appwyntiold a'r y cyntaf. Gormod gwaith
fyddai gofod yma Dystiolaeth bob hen Aul
fy'n crybwyll am yr Arfer hwn; bydded ym
yn ddigonol i wybod nad oes un o honyut
ddistaw o'i blegid. (b)

Arfer cyffredinol arall oedd *Sefyll* wrth dd
llen yr *Efengyl*, a hynny a'arferwyd yn wast
gan yr holl hen Grist'nogion ym mhob parth
Gred, er Amser yr Apostolion, fal y gwyr pa
ac sydd yn myned yn ol cynghor yr Yspryd g
Edrychwch a gofynnwch am yr hen lwybrau,
mae ffordd dda, a rhodiwch yndi. Jer. 6.
Pan yw *Sozomen* (yr hwn a sgrifennodd ynghy
Bl. yr Argl. 430) yn crybwyll am y Defodau
arferid mywn amryw Eglwysydd, y mae es
synnu ac yn rhyfeddu ynghylch digywilydd-
erchyll Esgob *Alecsandria*, yr hwn a 'rysy
eistedd, pan fyddid yn darllen yr *Efengyl*.
mir (eb 'r Historiawr) *ni welais i y fath*
erioed o'r Blaen, ac ni chlywais i chwaith am
arall a anturiodd y fath ysgelerder. (c) Ac y

(a) *Resp. ad Quest.* 118. pag. 471. (b) Cl
Alex. Strom. Lib. 7. pag. 724. *Tertull. Co*
Valent. Cap. 3. pag. 251. *Athanas. ad An*
Quæst. 97. pag. 284. *Const. Apost.* Lib. 2. C
6. 5 pag. 876. (c) *Hist. Eccles.* Lib. 7. Cap. 1

en Scrifennydd arall yn dyweduyd am yr Arddercoccaf *Theophilus*, Efgob o *India*, iddo (ym yfg pethau gwyrgam eraill a ddiwygiodd efe no) adferu yr hen Ddifgyblaeth i *Sefyll* wrth darllen yr *Efengyl*. (*d*)

Onniwn tellach ryw ychydigyn ynghylch y modd yr oeddid yn cwplhau *Dyledfwyddau luluaidd* yn y Brif Eglwys. Cyn gynted ac y odent o'i gwlâu y Boreu, Meiftr y Tŷ a alwai awb o'i Deulu fyned i Weddi, (*e*) yr hyn a gwpaid gan y Pen-teulu ei hun, oddigerth fod yno einidog, neu Wr Eglwyfig yn bresennol. Ac mae 'n dybygol eu bod yn adrodd y *Gredo*, neu yfes o'i Ffydd y pryd hwnnw, modd y gwnaent offes gyhoedd eu bod yn Grift'nogion uniowned, ac fal y llwyr-addyfgent eu Plant, a'i gweion yn holl brif byncgiau 'r Grefydd Grift'nogol. nd y mae 'n ddiammau eu bod yn darllen ryw yfran o'r Scrythur, (*f*) yn ôl Cynghor yr Apol, *Preſwylied gair Duw ynoch yn helaeth, ym ob Doethineb.* Colofs. 3. 16.

Ynghylch *banner Dydd*, cyn eu myned i Gwa y darllenid drachefn ryw gyfran o'r Scrythur, a gwedi gofod y Bwyd a'r y Bwrdd, yr ermid Bendith gan Dduw arno (gan mwyaf) yn y eiriau hyn, "Tydi 'r hwn wyt yn rhoddi ymborth i bob Cnawd, caniatta i ni dderbyn yr ymborth presennol gyd a'th fendith di. Ti Arglwydd a ddywedaift, *Os yfwn ddim marwol*,

(*d*) *Philoſtorgii. Hiſt. Eccleſ.* Lib. 2. N. 5. pag. (*e*) *Chryſ. Hom.* 1. *de Precat.* Tom. 1. pag. 9. (*f*) *Vid Primitive Chriſtianity*, part. 1. 263.

" *ni wna i ni ddim niwed*, os gan gredu, y credw
" ynot ti; Tynn di ymaith gan hynny, yr hw
" wyt Arglwydd pob Gallu a Gogoniant, bo
" anian ac anſawdd ddrwg afiachus oddi wrth e
" hymborth ni, a pha ddylanwad niweidiol by
" nag a all oſod arnom. (*g*) Wrth fwytta, yr a
ferent i ganu Hymnau a Salmau, yr hyn y m
Joan aur-enau yn ei ganmol yn fawr, lle y mae
annog Gwyr priod i'w dyſgu i'w Gwragedd
Plant, i'w canu wrth eu Gorchwylion cyffredin
ond yn lleddfaddeu wrth fwytta, gan fod y c
ryw Odlau Yſprydol yn Swyn-gyfaredd rhagor
rhag profedigaeth. " Canys (*ebr ef*) megis n
" yw Diafol yn barottach un amſer i'n dal yn
" Fagl, na phan y byddom yn bwytta, naill
" trwy anghymedrolder, a'i Seguryd, a'i yno
" trwy lawenydd anghymmeſur: Felly ni a dd
" lem cyn ac wrth fwytta, ddiogelu ein hunain
" Salmau: Je ni addylem ganu Hymnau drac
" eſn, wedi y derfydd i ni fwytta: (*b*) Gwel
mo'r ddiwyd oedd yr hen Griſtnogion gyn
rodio gyda Duw, a mo'r ddi-efgeulus oeddynt r
nev-ynu 'r Enaid, tra fyddent yn *peſci* 'r Corph

Yn yr hwyr y gelwid yr holl Deulu y tryde
waith i *Weddi*, ac a'r ol hynny hwy a aent i
gwlâu. Ac a'r hanner nôs, y cyfodent eil-wa
i Weddio, ac i ganu mawl i Dduw. (*i*) Y m
'n dybygol mae Frlidigaeth a roddes achlyſur i
ynt gynnal yr Arfer hwn a'r y cyntaf, ſef, pan
fyddai rydd iddynt gyfarfod liw dydd i addoli D
a'r gyhoedd. Ac yno, (fal na fernid fod eu

(*g*) *Orig. in Job.* Lib. 2. fol. 36. Col. 2. Tom.
(*b*) *Chrys. in Pſalm.* 41. Tom. 3. pag. 147.
Clem. Alexand. Pædag. Lib. 2. Cap. 9. pag.

edi ſlaeſu) y cynhaliwyd yr un-rhyw dreſn yn Amſer Diogelwch yr Ymherodron Chriſt'nogol. *Gan ein bod* (eb 'r Apoſtol) *yn derbyn teyrnas ddi-ſigl, bydded gennym Râs, drwy 'r hwn y gwaſanaethom Dduw wrth ei fodd, gyda gwylder a pharchedig ofn: Canys nid oes i ni yma ddinas barhaus, eithr un i ddyfod yr ym yn ei ddiſgwyl.* Heb. 12. 28. 13. 14. A hyn a ganlynodd y Priſt Chriſt'nogion gyd-a'r Egni mwyaf ac oedd boſſibl, 'r fath ddyſalwch, fal ped yſtyriem eu haſtudrwydd a'i Myſyrdod gwaſtadol yng ngair Duw a'i Waſanaeth, ni a dybygem yn ſicr nad oeddynt yn cymmeryd yr hyſrydwch lleiaf mywn dim peth yn y Bŷd, ond yn addoli Duw. Fe ddywedir am *Iaco* (a gyſenwir y *Cyfiawn*) ei fod efe cyn fynyched yn gweddio, fal y caledodd ei ddau-lin megis Carreg (*k*) *Cuſtenyn fawr*, er cymmaint oedd ofal yr Ymherodraeth yn ddiſgwyl arno, etto bob ydd yn ei Amſer arferol, a ai i'w Stafell i weddio, ydded pa fatterion bynnag yn y Llŷs. Ac i dangos i'r Bŷd pa faint o hyſrydwch oedd ganddo n y Ddyledſwydd honno, efe a barodd oſod ei Argraph a'r ei Arian mywn Dull Gŵr a'r ei ddau-lin a'i freichiau a'r lêd, a'i olygon tua 'r Nêf (*l*) Ni archwaethai *Theodoſius* Ymherawdr a arall gymmaint a *Ffigiſſen*, nes rhoddi diolch n gyntaf (*m*) Dywedir am yr un Ymherawdr, i fod yn codi bob boreu gyd a'r Dydd i ganu Salmau ynghyd a'i Chwiorydd, a'i fod efe mo 'r gyrwydd yn y Scrythur, a phe buaſai heb ddarllen

(*k*) *Euſeb. Hiſt. Eccleſ.* Lib. 2. Cap. 23. (*l*) *Euſeb. Vit. Conſtant.* Lib. 4. Cap. 22. (*m*) *Sozom. Hiſt. Eccleſ.* Lib. 1. pag. 2.

un llyfr arall erioed (*n*) Gwelwn ynteu Tel yr hen Gristnogion gynt, y rhai, o darfu neb erioed a ganlynasant Reol yr Apostol, *Yn ddiweddaf Frodyr, pa bethau bynnag sydd wir, pa bethau bynnag sydd oneſt, pa bethau bynnag sydd gyfiawn, pa bethau bynnag sydd bur, pa bethau bynnag sydd bawddgar, pa bethau bynnag sydd gannoladwy, od oes un Rhinwedd, ac od oes un clod; meddyliwch am y pethau hyn.* Phil. 4. 8.

PEN. VII.

Pa gyfryw Lannoedd neu Eglwyfi oedd gan y Prif Gristnogion. Y Goriwch ſtafellocdd. Wedi eu hyſſegru a'i neilltuo i fod yn lle i'r Christnogion yſyfarfod. Tair doſparth yn yr Eglwyſydd gynt. Schiſm yn neb bregethu allan o'r Eglwys. Siamp o bynu y: Dim delwau yn yr Eglwyſydd. Tu ghylch Clych.

MEgis nad yw boſſibl i gyflawni un math o weithred heb ryw *Le goſodedig*, perthynaſol a chymmwys i'r Gwaith, modd y gall pob peth fod yn iawn, ac yn drefnus weddaidd. Felly y mae *Lle goſodedig* yn gwbl anghenheidiol at Waſanaeth Duw, modd y gall Chriſtnogion ymgynnull, pan y maent mewn modd arbennig yn dyfod i addoli Mawrhydi anfeidrol, *Arglwydd yr Arglwyddi, a Brenin y Brenhinoedd.* Canys yn gymmaint a bod Gwaſanaeth Duw mewn rhan fawr o honaw yn ſefyll mewn gwahi

(*n*) *Socrat. Hiſt. Eccleſ.* Lib. 7. Cap. 22.

waith oddiallan, yn bendifaddau pan ſo Nifer
ur yn ymgynnull i'r un man, Nid yw *Lle* yn
ig, ond y mae ehangder ac Chymmwyſdra *Lle*
anghenrheidiol, modd y gall pawb wneuthur ei
dyledſwydd yn y fath ſodd addas teilwng, ac y
eddai ſod yn y fath waith netol a'bennig, ac
rw addoli'r Duw mawr.

Felly yr ym yn darllen i'r Apoſtolion gyfarfod
ywn *Gorutwch-ſtafell Act.* 1. 13. Yr hon
afell a neilltuwyd trwy Weddi ac ympryd oddi
rth bob gwaſanaeth arall, at y diben hwnnw yn
ig, ſef yw hynny, at *Lle* i waſanaethu Duw.
thrwy bob tybygoliaeth, hon oedd yr un Stafell
y bu Chriſt yn bwytta ei Swpper ddiweddaf
da ei Ddiſgyblion. Ac nid a'r ddamwain y
arfuafant yn y lle hwnnw, ond mywn bwriad i
rhau gynnal eu Cymanfeydd cyhoedd yno:
anys y mae'r 'Scrythur Sanctaidd yn tyſtiolaethu
ae yn yr un *Lle*, ſef yn yr *Oruchel-ſtafell* honno,
oedd yr Apoſtolion, pan ddeſgynnodd yr Yſ-
yd Glân yn weledig mywn dull *tafodau gwaha-*
dig megis o dân a'r bob un o honynt, Act. 2. 1.
'r lle hwnnw oedd yn gydnabyddus i bawb mae
glwys y Chriſt'nogion ydoedd, yn gymmaint ac i'r
ll Liaws *(o bob cenedl tan y Nef)* ddyfod yn
liattreg atto, heb ddim petruſder meddwl, ſef
e mi wyddent yn ſicr mae'r Oruchel-Stafell honno
edd Llan neu Eglwys y Chriſt'nogion, a'i nid ê:
r hyn ni allaſent wneuthur oni fuaſai ſol yr
ruchel-Stafell honno yn gydnabyddus, mae yno
oedd yr Apoſtolion a'i Proſelytiaid yn ymgyn-
ll. A hyn y mae gwyr dyſgedig yn gymme-
yd ywgwir a phriodol yſtyr yr Adnod honno,
ſt. 2. 46. *A bwy beunydd yn parhau yn gyttun*
y Deml ac yn torri bara o dŷ i dŷ. Sef yw

hynny, wedi darfod cyflawni eu defoſiynau
rol yn y Deml, hwy a ddeuent i gymmeryd y
crament *Gartref*, (megis yr Eſponir ef ar ir
Ddalen) hynny ydyw, i'r *Oruchel Stafell*.

Y gair *Eglwys* a gymmerir yn y Teſtament
wydd mywn dau neu dri o yſtyriaethau. 1.
ryw nifer o Bobl yn cyfarfod i addoli Duw my
Lle appwyntiedig; megis Rhuf. 16. 5. *Anbe*
wch yr Eglwys ſydd yn eu tŷ hwy. Ym mha le
yw'r Apoſtol yn annerch y Teulu yno yn
ond yr holl Gynnulleidfa ac oedd yn perthyn i'r
fartod a gynhalid mywn rhyw Stafell arbennig
y Tŷ, a neilltuid at Le i'r Chriſt'nogion uno
Ngwaſanaeth Duw a'r gyhoedd, trwy Wedd
Ympryd. 2. Efe a gymmerir am y Chriſt'nog
yn gyffredinol, megis yn *Act* 15. 3. *Ac wed*
bebrwng gan yr Eglwys; hynny ydyw, gan y Chr
nogion. 3. Efe a gymmerir am y *Lle ei hu*
byddai'r Chriſt'nogion yn cyfarfod yndo.
yn yr yſtyr hwn y mae yn 1 Cor. 11. 22. *Onid*
gennych Dai i fwytta ac i yfed? A'i dirmyg
ydych chwi Eglwys Ddaw? hynny ydyw, y
neu'r *Llan* yr oeddynt yn cyfarfod ynddi, f
mae'n Eglur, 1. Oddi wrth *Adnod.* 18 o'r bl
Pan ddeloch ynghyd yn yr Eglwys, ſef yw hy
(megis y mae'r Apoſtol ei hun yn ei Eſponi)
fyddoch yn dyfod ynghyd i'r un lle. Adn. 20. F
y mae'n Eglur, mae'r *Lle ei hun*, nid y G
ulleidfa, y mae *S. Paul* yn feddwl yma
Eglwys: Ac ni fyddai dim ſyniwyr yn y gei
ped eſponid hwy mywn modd amgen; Can
fyddai yn ffolineb, ac yn llwyr anghyſſon a S
wyr a Rheſwm i ddywedyd, *Pan ddeloch ynghy*
Chriſt'nogion. Ond y mae'n gyttûn a meddwl
Yſpryd Glân i ddywedyd, *Pan ddeloch ynghyd*

r Eglwys, neu, *i'r un lle.* 2. Y mae 'r Apostol yn gosod gwahaniaeth rhwng yr Eglwys, neu 'r lle yr oeddid yn gwasanaethu Duw ynddo, a'i Dai annedd. *Onid oes gennych chwi Dai i fwytta, a i yfed? A'i dirmygu yr ydych* Eglwys *Duw?* Od oeddynt yn bwriadu cynnal y Gwleddau anhymmedrol hynny, yr oedd ganddynt Dai eu hun, lle 'r oedd yn llawer cymmwysach iddynt fyned yn y *Lle* a gyssegrwyd i gynnal Gwasanaeth Duw ynddo; ac am hynny ni ddylasent ei halogi ef trwy loddesta a meddwi ynddo. Gwelwn ynteu ymmaint oedd gofal yr Apostol rhac i neb ddirmygu 'r Eglwys trwy air neu weithred, ac mo 'r wrthog oedd ei Zêl at Dŷ Dduw, fal na fynnai od dim anweddeidd-dra yn cael ei wneuthur ynddo. Felly y mae 'n gosod terfyn i'r Bennod trwy ddywedyd, *Eithr os bydd newyn a'r neb, bwytted gartref*, megis pe dywedasai, Na rytyged neb ddyfod i fwytta ac i yfed yn Nhŷ Dduw, ond gwneler hynny gartref yn eu Tai annedd. *A'r Iesu a aeth i mywn i'r Deml, ac ddechreuodd fwrw allan y rhai oedd yn gwerthu ynddi, ac yn prynu: Gan ddywedyd wrthynt, Y mae yn Scrifennedig, Fy nhŷ i, tŷ Gweddi yw.* Luc. 19. 45, 46. Yn yr un-rhyw ystyr a'r a grybwyllwyd ddiweddaf y ceir y Gair Eglwys yn fynych jawn yng ngwaith yr hen Athrawon a'r ôl dyddiau 'r Apostolion. *Y mae Clement o Alexandria* (yr hwn a sgrifennodd ynghylch *Bl. yr Argl.* 200) *yn cymhori gwragedd i fyned i mywn i'r Eglwys fyd a phob llednei sfrwydd, a gostyr geiddrwydd calon ac oedd bossibl* (o) Ac Offeiriaid Eglwys *Rhufain* yn yr Epistol a ddanfonasant at *S. Sygrian*, ynghylch

y

(o) *Padag.* Lib. 3. Cap 11. pag. 281.

y modd y dylid derbyn i Gymmundeb y rhai
Syrthiasant, sy'n cynghori, *y dylent ddyfod*
unig i borth yr Eglwys, ond nid dim ym mhellach
(p) Nid all fod dim yn amlycach onid y *Lle*, n
y Gymmulleidfa yn y *Lle*, ydys yn ei feddwl ym
ac am hynny ni chât i Eglurhau dim arnynt.

Yn yr ail Oes wedi dyddiau 'r Apostolion
adeiladwyd Eglwysydd neu Lannoedd hoywach
ran eu Maintioli a'i tacclusrwydd na 'r Goruch
stafelloedd-hynny, er nad oeddid yn eu galw hw
yn Demlau gan Grist'nogion yr oes honno.
hynny a wnaethant i'r diben, fal y bai iddynt am
wio (megis ym mhob peth arall agos) fellp h
yn od Enwau y Llannoedd y baent yn ymgyfarf
ynddynt oddi wrth y *Paganiaid*, y rhai c
ganddynt Demlau gwychion o ran hoywder
hadeilad, a gosodiad Delwau ac Eilynnod ynddy
Ac yn yr ystyr hwn yn unig y mae i ni ddeall h
Athrawon yr Eglwys, pan y maent yn dywedy
nad oedd ganddynt hwy ddim Temlau nac Allor
(q) A'i meddwl ydyw nad oedd ganddynt hw
ddim o'r fath Demlau ac Eilynnod ynddynt,
Allorau mawrion *paintiedig*, megis yr oedd gan
Paganiaid. Ac yn yr Ystyr hwnnw y mae 'r h
Grist'nogion yn dywedyd nad oedd ganddynt hw
ddim o'r fath, er bod ganddynt yn y cyfam
Lannoedd neu Eglwysydd i ymgynnull, fal y
ymddengys (ym mysg eraill) allan o *Justin*
Martyr, yr hwn a ddywed, *fod yr holl Grist'*
gion yn cyfarfod a'r ddydd Sul i'r un lle i wa
naeth

(p) *Adeant ad limen Ecclesiæ.* apud Cyp. Epi
31. § 7. *pag.* 7. (q) *Min. Fel.* pag. 8. *Arn*
adverſ. Gent. Lib. 6. pag. 83.

ibu Duw. (r) Yr hyn ni allaſent wneuthur, ſuaſai ſod y lle hwnnw wedi ei rag-appwyntio y diben hwnnw, a'i gyſſegru trwy Weddi mpryd at *Le* i waſanaethu Duw a'r gyhoedd. elly ni a welwn ſod gan y Chriſt'nogion *Eglwyſſydd*, neu *Le* wedi gyſſegru at Waſanaeth Duw r Amſer y galwyd hwy gyntaf a'r yr Enw nw: Ni a gawn yſtyried yn y lle neſaf, *Pa* rai oeddynt. Hwy a adeiladwyd gan mwyaf yn go uchel, neu le Amlwg o'r hyn lleiaf, i yddoccau (mae 'n dybygol wrth hynny) yr yddor neſol a ddylai ſod mywn Chriſt'nogion yſtyru pethau iſod y Byd, a phob peth arall y Cariad a ddylai ſod ganddynt at *Jeſu riſt*, megis y mae efe ei hun yn dywedyd, *Os neb attafi ac ni chaſao ei dad, a'i fam, a'i nt, a'i frodyr, a'i chwiorydd, ie a'i Einioes ei hun yd, ni all efe fod yn ddiſcybl i mi.* Luc. 14. 26. adeiladid pob Eglwys fel y bai 'r nalll Daleen cyfeirio 'n union-gyrch at y Dwyrain, yr hyn i wnaethpwyd er Amſer yr Apoſtolion, etto mae 'n ddi-ddadl mae yn y Modd hwnnw yr iladwyd yr Eglwyſydd oll yn yr ail Oes, fal yr ddengys wrth eiriau Hen *Dertulian*. Medd, *Y mae Tŷ ein Crefydd ddiniweidiol ni wedi iladu a'r le uchel, ac yno ngwydd pawb, ac a feitir at y Goleuni megis Dull yr Yſpryd Glan, at y Dwyrain megis lle ſy'n arwyddoccau riſt.* (s)

Yn yr Eglwyſydd gynt yr oedd tair doſparth, y i a appwyntiwyd at amryw fath o Wrandawyr; Y Doſparth cyntaf oedd y Rhan flaenaf o'r Eglwys

(r) *Juſt. Mart. Apol.* 2. pag. 98. (s) *Tert. verſ. Valentin.* pag. 251.

wys wrth fyned i mywn iddi, lle byddai y tu n
at y Drws y *Catecheiſwyr*, neu Blant Rhieni
ghrediniol a addyſgid ym mhrif byncgiau 'r C
fydd Griſt'nogol, modd y baent yn gymmwys
bedyddio. Neſſaf attynt hwy yn yr un Doſpa
y byddai 'r rhai a *berchennogid gan Tſpryd*
aſlan, ac yno hefyd y byddai 'r *Bedydd-faen*.
yn y tu blaenaf y byddai Math o Wrandawy
rhai a fernid yn anghymmwys i ddyfod i Fw
yr Arglwydd, oblegid rhyw Anghymmedro
neu gilydd yn eu hymarweddiad. 2. Yr ail d
parth oedd Canol yr Eglwys, ac yno yr oed
Ffyddloniaid yn eiſtedd, y Gwrywiaid o'r nail
a'r Benywiaid o'r tu arall, canys ni chaniatta
iddynt eiſtedd ynghyd blith draphlith. Ac y
rhan yma o'r Eglwys yr oedd y *Pulpud*. 3
Drydedd doſparth oedd y rhan uchaf, neu
Ganghell, lle nid oedd rydd i neb ddyfod on
Gŵyr Llên, neu 'r Gweinidogion, a'r *Ymberod*
Groeg yn Nbref Guſtenyn, neu *Gonſtantinopl*, a
niattaid hefyd i ddyfod at yr *Allor* i dalu 'r offrw
ac yno i ddychwelyd allan o law i'r Eiſted
'pwyntiedig iddynt. Y tu uchaf i'r *Bwrdd C*
mun, neu 'r *Allor* y byddai Trŵn neu Orſe
ſaingc yr *Eſgob*, ac o'i amgylch o bob tu y byd
Eiſtedd-leoedd yr Henuriaid, ond nid oedd r
ſr *Diaconiaid* eiſtedd yno. (*t*)

Yn yr Amſer dedwydd gynt (pan oedd g
dreſn Efangylaidd mywn Llŷs a Llan) ni c
niattawyd i neb ymneilltuo o'r Eglwys, a
gynnal cyfarfodydd gwahanedig, ac i breg
mywn Teios. Ac os rhyw *Ffanatic* a ry
wneut

(*t*) *Caves Primitive Chriſtianity*. part. 1. C
pag. 138, 139.

euthur hynny, eſe a gondemnid allan o law, y dalu Camlwrw neu *Ffin* i'r Ymherawdr, neu y ddioddefaryw goſperligaeth arall a tarnai Cyfla o Eſgobion uniown-gred yn gymmwys. lly mae 'r *Rheolau* a dadogir a'r yr *Apoſtolion*, ſelly y mae 'r pummed Rheol o'r *Gymanfa* a haliwyd *Bl. yr Argl.* 341 yn *Antioch* yn gor-mmyn yn y geiriau hyn, nid amgen, *Os Offei-d, o ddiyſtyr a'r yr Eſgob, a ymneilltua, ac a nal gyfarfodydd gwahanedig, gan oſod i fynu llor arall* (hynny ydyw, cadw Cyfarfodydd an-reithlawn mywn Teios) *Bydded iddo gael ei ſwyddo o'i Weinidogaeth, megis gwr ſbwannog ydd-ymgais a rhyfyg.* Ac *Eſcymmuner, ei ulymwyr, gan eu bod yn Derfyſgus, a Schiſma-aid; Ond na wneler hyn, hyd oni rybuddir bwy r gwaith (u)* Dyna farn y Brif Eglwys Ffan-laidd ynghylch Ymneilltuad a Schiſm.

Rhac i neb dybied nad oedd hyn ond bygwth o daro, mi a chwanegaf yma ſiampl ynghylch modd y triniwyd gŵr a droſſeddodd y Rheolau n. Fe ddigwyddodd i ŵr a elwid *Euſtathius*, gob. *Sebaſtia*, (ynghylch yr un amſer ac y cy-liwyd y Gymanfa uchod) droſſeddu Diſg yblaeth Eglwys trwy gynnal *Cyfarfodydd gwahanedig wn Teios*, ‡ trwy ddiyſtyru Offeiriaid a ſyddent priodi, trwy daeru na chai un gwr goſudog fyned Netoedd, mae Dydd Sul y dylid ympryd io, gyda llawer

(u) *Conſt. Apol. Can.* 31. *& Concil. Antioch. an.* 5. ‡ *Quod Presbyteros qui habent uxores ntemnant* [Sc. Euſtathius & ejus Diſcipuli] *od Diebus dominicis jejunent*, QUOD ÆDIBUS GANT CONVENTUS &c. Sozom. Hiſt. Eccl. b. 3. Cap. 13. pag. 65. b.

llawer o bethau eraill yn llwyr wrthwyneb
Eglwys Catholic.

Ond cyn gynted ac y daeth y Newydd ga
hwnnw i gluſtiau'r Eſgobion uniown-gred,
a gyfarfuaſant *Bl. yr Argl.* 341, ym mhrif
nas *Papblagonia*, a elwid *Gangra*, lle
Eſgymmunwyd *Euſtathius* a'i Ganlyn
a'r ddau Reol a ganlyn a wnaethpwyd yn
erbyn, er cadw'r Eglwys mywn tangneddyf ac
deb rhaglaw. 1, "Pwy bynnag a ddywedo
"dd ddirmygus am Dŷ Dduw, bydded yn An
"ma. 2. Pwy bynnag a ryſygo i bregeth
"ddirgel mywn Teios, allan o'r Eglwys, a chan
"yſtyrn'r Eglwys a wna y cyſryw bethau a ddy
"ei gwneuthur yn yr Eglwys yn unig, a hynny
"genhad yr Eſgob, bydded yn Anathema.
Gwelwn ynteu fod yr hen Grift'nogion yn glyn
ddiyſcog wrth Reol yr Apoſtol, *Na'ch arwei*
oddi amgylch ag athrawiaethau amryw a dieit
Heb. xiii. 9.

Y Gotchwyl hawſaf yn y Byd yw proſi
oedd yr hen Grift'nogion yn addoli dim *Delw*
Canys od oedd ganddynt y fath Gaſineb attynt,
na chaniattaid eu goſod yn yr *Eglwyſydd*, ſe
ddengys i bawb, (a'r nid ŷnt wedi llwyr yn
ddi i gyndynnnrwydd) nad oedd neb
eu haddoli. Nad oeddid yn eu goſod my
Eglwyſydd, a ymddengys wrth yr Ystori nod
y mae Gŵr eglwyſig a elwid *Epiphanius* yn adr
ſal hyn: *I'an ddaethum* (eb'r ef) *a'r fy*
i Bentref a elwir Anablatha *ym Mhaleſtina*
a drosais i mywn i'r Eglwys i weddio. Ac yn
a welwn Llain wedi ei grogi uwch-ben y Dr

L

(w) *Concil. Gangr. Can.* 4, 5.

in Chriſt, *neu ryw Saint wedi baintio arno. Yr* [illegible] *pan yſtyriais fod y cyfryw ffieidd-dra yn llwyr-* [illegible]*bwyneb i'r Yſgrythur lân, myſi a ymeſtais yndde* [illegible]*'i rhwygais, ac y gynghorais y Gwyr Eglwy-* [illegible]*yno i'm roddi ef yn byttraeh i wneuthur Amdo* [illegible]*yw ddyn Tlawd nag ei oſod ef a llunnau arno* [illegible]*yr Eglwyſſydd.* (*x*), Hyn a ſgrifennwyd yn- [illegible]ylch *Bl. yr Argl.* 390. *at Joan* Eſgob *Jeru-* [illegible]*lem*, yn Eſgobaeth yr hwn y gwnaethpwyd y [illegible]th. Ac nid Barn unigol rhyw ŵr neilltuol [illegible]oedd hyn, ond ê warafynnwyd i oſod Delwau yn [illegible]Eglwyſydd yn y pedair Oeſoedd cyntaf ym mhob [illegible]an o'r byd Chriſt nogol, megis y dengys Barn [illegible] Cymanfa honno a gynhaliwyd *Bl. yr Argl.* 305 [illegible]yr *Hiſpaen*, lle y gwarafynnwyd *Oſod Delwau* [illegible]*yr Eglwyſſydd, ac i baintio gwrthddrych eu ha-* [illegible]*liant a'r y Mâr.* (*y*), Geiriau mo'r eglur, [illegible]nad yw raid eſponi dim arnynt, ac mo'r ga- [illegible]m ddwys yn erbyn Amddiffynnwyr Eilun- [illegible]doliaeth, ſal nad all un *Papiſt* cyfrwyſ-ddrwg [illegible]dli dim atteb iddynt, neu eu dirdynnu trwy un [illegible]roell-ymadrodd pa un bynnag i yſtyr amgen nag [illegible] maent.

A oedd *Clŷch* yn yr Eglwyſydd yn yr Oeſoedd [illegible]ntaf, ni's gallaf i ddywedyd. Ond pa bryd [illegible]nnag y goſodwyd yno (ac yr wyf yn meddwl [illegible]d hynny mo'r gyntar a dechreuad y Bedwareddes) y maent yn dra perthynaſol i'r dibenn y [illegible]dwyd; ac nid yw ddim llai na Chyſſegr-ledrad [illegible] neb, ie ped fae Eſgob, i'w tynnu ymaith, ſal [illegible]tyſtia yr Yſtori wirioneddol hon. *Arthur* [illegible]*kley* a gyſſegrwyd yn Eſgob *Bangor*, Rhagfyr [illegible]10

(*x*) *Inter Opera Hieron. Tom.* 9. *pag.* 161.
(*y*) *Concil. Illib. Can.* 36.

20. *Bl. yr Arglwydd* 1541. Y gŵr hwn a ledratto
bum Cloch o'i Eglwys Gadeiriawl *Bangor*, a
aeth i Lan y Môr i weled eu gosod yn y Llon
fyned a hwy trosodd. Ond prin yr aeth
dri cham a'r ei ffordd adref, ond ei Lygai
ddallodd yn ddisymmwth, ac ni welodd efe o
mwyach tra fu efe byw (z).

PEN. VIII.

*Rhinweddau y Prif Grist'nogion yn gyffredi
fel yw hynny, eu Gostyngeiddrwydd, Diwyd
eu Hamynedd yn dioddef. Yr amrafaelion
ddau yr oeddid yn eu Poeni. Yffyr Erlidig
gyffredinol. Eu Hufudd-dod i'r Awdurdo
Goruchel. Amrafaelion ffamplau o hyn oll.*

WEdi gweled eusys ynghylch
modd y cwplhauid Dyledswyddau
Christ'nogion mywn perthynas
Addoliad &c, yn y Brif Eglwys;
wyf yn meddwl na fyddai anglw
mwys pe chwanegwn etto ynghy
eu *Buchedd* a'i *Hymarweddiad*. Canys yr
yn gobeithio nad yw hynny yn waith anfuddiol,
i wybod mo'r ddiargyhoedd yr oedd yr hên Gr
nogion gynt yn ymarweddio, modd y gall
ninnau ddeisyf nerth yr Yspryd Glân i'w can
yn yr unrhyw lwybrau nefol, cyn belled ac y
lynasant hwythau yr Arglwydd Jesu Grist. Fe
y *Rhinweddau* hyn a ganlynant oedd y tlysau g

(z) Bp. Goodwin's *Catalogue pag.* 540.

og a wnaethant fuchedd y Prif Grist 'nogion yn
ilsglair, ac i oleuo megis Lampau mywn Cann-
yll-brennau Aur. A'r Siamplau ynt y Prif
rist 'nogion eu hun, ym mha wlad bynnag yr
eddynt yn byw.

Dyscwch gennyf (eb 'r ein Hiachawdwr) *canys
dfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon.* Math. xi.
Ac yn ficcr y Prif Grist 'nogion a ddyfgafant
Rheol, fal y canlynafant y Siampl yn egniol.
ostyngeiddrwydd a gyfrifid ganddynt yn un o'r
ylau gwerthfawroccaf ac oedd yn harddu Bu-
edd y Gwir Gristion, ie yn hanffodawl, megis
th di-wahan oddi wrtho. *Sicut Proprium in
arto modo.*

Dau nod arbennig oedd gan y Paganiaid i ad-
bod y Christ 'nogion, 1, Eu Hymarweddiad oedd
br ac arafaidd. 2, Eu dillad oedd fymi a
yftymgar. A phe chwilid eu llyfrau, y maent
fiarad yn erbyn balchder Dillad fal hyn. "I
ba beth y cyffelybaf, (eb 'r hen Athraw a elwir
Clement o *Alexfandria*) wr coeg-falch, neu
ddyn a fae 'n gwifgo dillad gwychion, Sidan a
Phorphor, ac ecto heb ràs yn ei Galon? Nid
allaf ei gyffelybu ef a dim cymhwyfach nag a
Demlau 'r *Aipbt*. Os edrychi (*eb 'r ef*) a'r
eu gwedd oddi allan, ti a'i gweli yn Adeilad
hoyw wych, godidog ddigon. Ond dos i mywn,
ac ymofyn i ba ddiben, yr adeiladwyd mo 'r hoyw-
ardderchog a thacclus? I ba ddiben, y mae 'r
holl Feini gwerthfawr fy 'n llewyrchu megis
cynnifer Seren? I ba ddiben y mae 'r holl Go-
lofnau uchel, y Pyft aur, a'r gwychder hyn oll?
Fe ddywedit i ti, I gynnwys Gwrthddrych eu
Haddoliad. A pha beth ydyw hynny, ond
Caeth, Sarph, neu *Lyffant*. Felly y Godidowg-

" rwydd hyn oll *(eb 'r ef)* a wnaethpwyd i gyn
" wys ryw Ymlyſgiad brwnt, neu ſwyſtfil c
" Canys y cyſtryw bethau y mae'nt hwy yn addo
" Yr un ſtunyd *(eb 'r ef)* os edrychi a'r Wr Balch
" Ei wedd oddiallan ſydd wedi harddu yn d
" godidog; Efe a wiſg Sidan a Phorphor am dan
" Ond edrych oddi fywn iddo, a chei weled yn
" galon ddrwg bechadurus, ſerchiadau cnawd
" a phob bryntt ac halogrwydd. *(a)*.

Yn Gyſtattebol i hyn y mae *Theodoret* yn adro
Yſtori berthynaſol jawn i'r perwyl, hwn ſal y c
lyn. Fy Mam *(eb 'r ef)* a ſtinwyd yn ei Gwyr
dod a ſtygaid toſton, a phan ni allaſai gael di
lleſhâd gan y Meddygon, hi a aeth at Wr duw
ol a elwid *Petr*, yr hwn trwy allu Duw a jach
hôi math a'r glefyd. Ond fel y byddai (mal
tygaſai hi) yn hoffach gan y gwr ſanctaidd
gweled, hi a itodd ei hwyneb ag olew, ac a y
drwſiodd yn bingc ac yn hoyw jawn. Cyn gynt
ac y daeth hi i wydd *Petr*, a gwneuthur ei De
fyfiad atto. efe a attebodd yn ddigllon gan dd
wedyd; Ha Ferch *(eb 'r ef)* tybia i ryw Greſft
cywrain wneuthur Delw yn gelfyddgar, ac
harddu deg dda odiaeth. Ac i Fwngler anghelfyd
gar ddyfod heibio, a rhyfygu ymendio gwa
y Creſftwr cywrain hwnnw; A fyddai efe yn lo
lon i'r Bwngler hwnnw? Yr wyf yn tybi
amgen. Yr un ſtunyd *(eb 'r ef)* oni tydd
Holl allûog Dduw, Creawdwr pob dim, i anſo
loni wrth y ſawl a ryfygo ymendio a'r ei wa
ef? Yr ydwyt ti, yr Eneth, (mi a ddywedaf
hŷ wrthyt) yn gwneuthur Duw megis yn anhe
ffaith; Canys pettit yn credu ſod Duw yn Be
ffail

(a) *Clem. Alexand. Pædag. Lib.* 3. *Cap.* 1.

ih-gwbl, ac yn Holl-alluog, ni anghwanegit ei waith ef, ſal yr ydwyt wrth blethu dy wallt, mh liwio dy Wyneb, ac wrth ofod Perlau o bbtu 'th wddf. Ond gwybydd yr Enetli, y geilwa w di i gyfrif am y pethau hyn oll. Ac yno Rendefiges a gydnabu ei ffolineb, ac a ddywedd mae ei hanwybodaeth ydoedd, ac na wnai fyth y cyfryw Gaſtiau drachefn. Ac yno trwy r ynibil efe a'i jachaodd hi. (b).

I dymmer nefol hon, ſef Yſpryd goſtyngeddfwyn, a wnaeth i'r Prif Griſt'nogion ddiyru golud a gwagedd y Byd, ac i dibriſio pe u afreidiol, megis Dillad yſtymgar, lleſtri aur, wydydd amheuthun. " A dyrr cyllell ddim (eb'r hen Athraw) oni fydd ei charn a manylwaith arno? Oni wafanaetha Lleſtr pridd yn gyſtal ag un o Aur? A gynnal y Bwrdd ddim n Hymborth, oni bydd y Cannwyll-breu wedi wychu ag Aur? Oni allwn gyſgu a'r groen Gafr, yn gyſtadl ac a'r Borphor? Ein Harglwydd a fwytaodd o ddiſgl gyffredin, ac a wnaeth i'r Dorf eiſtedd a'r y glaſ-wellt, ac a olchodd draed ei Ddiſgyblion heb alw am Gawg aur o'r Neſoedd. Efe a gymmerth y dwfr gan y Wraig o *Samaria*, mywn dwfr-leſtr pridd, heb ymofyn am un o Aur, (c).

Nyni (eb'r *Paganiaid* wrth y *Chriſt'nogion*) yn byw mywn ſtât anrhydeddus, ac yn cymryd hawddfyd a diſyrrwch, ſal y gweddai i nion; Ond yr ydych chwi (eb'r hwy) yn benmmion a myſyriol, ac yn ymgadw rhag diſyrr-

S 2 wch-

(b) *Theodor. Hiſt. Religios. in vit. Petri. Cap.* pag. 343. (c) *Clem. Alex. Pedag. Lib.* 2. 3.

wch cyfreithlon. Ni ddeuwch chwi ddim
Chwareuon cyhoedd, ac i'r Gwleddoedd anrh
deddus. Nid ydych chwi ddim yn coroni ei
harleifiau a Choron-bleth, nac yn per-arogli ei
dillad, fal y mae'n addas. *Math o ddynion*
gwrthnyſſig anhynaws! Ond y Chriſt nogion
attebafant, Gwir jawn, nid ym ni ddim yn d
fod, canys nyni a ddyſgafom well pethau.
beth ydyw eich Chwareuon ond Hudoliaeth
ddychymmygwyd yn Uffern, ac a ddyſgwyd
ddynion gan Ddiafol? Pe bernid yn uniawn rhy
gom y mae mwy o glod i ni fy'n ymwrthod
fwy, nag i chwi fy'n cymmeryd y fath hyfrydw
ynddynt. Yr ym ni yn meddwl am ein hadd
ned-fedydd pa bryd yr ymwrthodafom a Gwage
y Byd hwn, ac y gwnaethom addunedi fyw
Sanctaidd a ſobr. Pale y dywedwch ein bod
athriſt, dygn-gamſynniad ydyw; y mae genny
lawenydd dibaid yn ein calonnau, er nad ym
ymfroſtio ac yn crechwenu megis yr ydych chw
Nyni a ddyſgafom gan ein Harglwydd a'n Duw
fod o iſel ac utudd galon, ac o yſpryd addfw
goſtyngedig. Ac am hynny, nid oes gennym
ddim hoffder yn eich Gwleddoedd a'ch Chwareu
lle nid allwn edrych a'r ddim, ond Rhwyſc
Rhyfyg, Gloddeſt, a Meddwdod a phethau n
ynt weddaidd, (*d*).

Yn y lle neſſaf ni a gawn yſtyried eu *Diweir*
Mo'r ofalus oeddynt i fyw'n oneſt a dihalog,
nad edrychent a'r ddim a fyddai anwedda idd
anhardd, a ffiaidd oedd ganddynt i feddwl am Wr
ddrychon aniwair. " Ein Hymadroddion ni (*e*)
"

(*d*) *Vid. Minut. Fel. pag.* 10. *edit.* 1582.

un o honynt) ŷnt ddiwair, a'n Cyrph yn ddiweiriach. A llawer o honom, er nad ŷm yn ymffrostio a'r hynny, a gadwant wyryddod dibaid. A chyn belled ŷnt oddi wrth serch at y Fudrog fal y maent yn ymwrthod a'r cosleidiau diweiriaf. (*e*).

Yr oedd Christ'noges ddiwiol a elwid *Sophronia*, yr hon oedd cyn oddidocced mywn rhinweddau Ysprydol, ac mywn glendid, a phrydferthwch ei chorph; a rhwng y ddau, yr oedd hi'n ddigymmar ac yn wyrthiau'r Oes. Ond yn yr anfer hwnnw, dau beth niweidiol oeddynt, oblegid fod yr Eglwys tan Erlidigaeth o herwydd Gorchefdeyrn anllad a elwid *Macsen*. Felly *Macsen*, wedi clywed sôn mawr am dani, set ei bod yn harddwch y byd o ran ei thegwch, a anfonodd ei Swyddogion i'w chyrchu hi atto ef. A'r Swyddogion a wnaethont yn ôl Gorchymmyn ei Meistr, a gwedi eu myned hwy i'r Tŷ, Hwy a ddywedasant wrthi, *Os hi a ddeuai at yr Ymherawdr yn gyllysgar, a bod yn gariad-serch iddo, hi a ddyrchefid i'r anrhydedd ogoneddusaf a'r a allai hi ddymuno.* A hi a gymmerth arni, mal pe buasai'n fodlon, ac a archodd i'r Swyddogion i aros nes gwisgai hi'n wychach am dani. Ond yn lle ei hardd-drwsiad, hi a gymmerth gyllell, ac a frathodd ei hun. Ydyn sy'n dangos (eb'r Hiftoriawr) fod diweirdeb y Christ'nogion yn anorfod, (*f*).

Godineb a gofpid yn ddwys yn y Brif eglwys. I Teidau a gyttunasant mywn Cymanfa, *Blwydd. yr Argl.* 315, *Os syrthiai neb i odineb (wedi ei fedyddio) efe a gofpid a phenyd saith mhlynedd*

(*e*) *Id. pag.* 26. (*f*) *Euseb. Hist. Eccles. Lib. Cap.* 16.

oddiwrth y Cymmun. (*b*) Ac nis derbynnient ef pryd hwnnw chwaith, oni cheffid ynddo arwyddion hynod o'i fod wedi ymadael a'i bechod. Ni Godineb yn unig, ond ail-briodas hefyd a gerydd gan y Prif Grift'nogion. (*i*), Eithr yr ydys barnu eu bod yn gwyrdroi y Scrythurau yn hyn beth, i gadarnhau eu hopiniynau. Ond ni a dd lem gynnmeryd eu camfynniad yn hyn o beth gariadus, canys eu zêl i ymgadw rhag pob rhi dryg oni, a'i cymhellodd i ymwrthod a rh pethau cyfreithlawn, etto a tarnwyd ganddynt hw yn bechadurus. Y Cofp a oſodid a'r ail-briod ydoedd hyn; Os Periglor neu wr eglwyſig a bri dai ail wraig, efe a ddi-ſwyddid o'i Weinidog eth: (*k*), Eithr os gwr llûg a fyddai, efe a atte lid rhag y Cymmun dros un flwyddyn.

